# tafod elái

www.tafelai.net

Mawrth 2003 | Pris 40c | Rhif 175


## Addysg Gymraeg yn Gweithio

Daeth canlyniad Cyfrifiad 2001 â newyddion calonogol am ddyfodol yr iaith yn yr ardal gyda'r canran o siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf yn codi o 9% yn 1991 i 12.3% yn 2001. Mae'n amlwg fod gwaith ac ymdrech yr ysgolion Cymraeg a chefnogaeth y boblogaeth i ddyfodol yr iaith yn dangos yn yr ystadegau.

Ond mae angen llawer iawn mwy o gefnogaeth i sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn parhau i ffynnu. Mae'n arwyddocaol nad oes un ysgol Gymraeg newydd wedi agor yn Nhaf Elái dros y deng mlynedd diwethaf. Mae gwir angen i'r Cyngor Sir wireddu ei addewidion i gefnogi'r iaith drwy greu cyfleoedd ychwanegol i ddysgu'r Gymraeg ac i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle ac wrth gymdeithasu.

## BEIRDD IFANC

Eleni daeth 548 o gerddi i gystadleuaeth Iolo Morganwg Tafod Elái i feirdd ysgolion cyfun yr ardal. Tasg enfawr i'r beirniad, Llion Roberts oedd clorianu'r cynnyrch a diolch arbennig iddo am ei feirniadaeth drwyadl ac adeiladol.

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd rhan a diolch i'r athrawon am roi cyfle i'n beirdd ifanc ddisgleirio. Diolch hefyd i Rhys Dafis am drefnu'r cyfle hwn i ddatblygu doniau y dyfodol.

## CADW PONTYPRIDD YN DACLUS




**Colin Gregory, Keith Sargent, Islwyn Wilkins, Maer Rhondda Cynon Taf, ac Alison Bowden gyda Sue Essex, Gweinidog Amgylchedd y Cynulliad**

Mewn seremoni yng Nghastell Caerdydd ar 27 Ionawr cyflwynwyd Gwobr Cymru Daclus 2002 i Grŵp Gweithredu Coedpenmaen. Roedd y grŵp wedi curo 60 o grŵpiau tebyg o bob rhan o Gymru i ennill y tlws a'r tystysgrif a chefnogaeth ariannol i wella amglylchedd yr ardal.

Nod Grŵp Coedpenmaen yw ymladd yn erbyn agweddau yn y gymuned sydd yn caniatau i bobl ollwng ysbwriel heb ystyried yr amgylchedd.

Bu'r grŵp yn ymweld â'r ysgol leol a gyda chefnogaeth y Pennaeth, Mrs Alison Bowden, rhoddwyd gwybodaeth i'r plant am y problemau mae ysbwriel yn achosi. Cychwynwyd sustem ail-gylchu caniau alwminiwm gyda chymorth Cymdeithas Rheilffordd Rhondda Cynon a bu'r grŵp yn casglu sbwriel yn gyson o ochr y ffyrdd prysur yn yr ardal.

Dyma'r pedwerydd tro i grŵp o Rhondda Cynon Taf ennill y wobr bwysig hon yn ystod y deuddeng mlynedd diwethaf ac mae'n dangos ymroddiad pobl leol i wella eu hamgylchfyd. Eu nod nawr yw lleihau y defnydd o bapur pacio di-anghenrhaid a dylanwadu ar y llu o bobl sydd ddim yn meddwl cyn taflu ysbwriel allan o'i ceir.

Llongyfarchiadau i Grŵp Coedpenmaen. Mae nhw'n esiampl i ni i gyd.

# tafod elái

**GOLYGYDD**
*Penri Williams*
*029 20890040*

**LLUNIAU**
*D. J. Davies*
*01443 671327*
**HYSBYSEBION**
*David Knight 029 20891353*
**DOSBARTHU**
*John James 01443 205196*
**TRYSORYDD**
*Elgan Lloyd 029 20842115*
**CYHOEDDUSRWYDD**
*Colin Williams*
*029 20890979*

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 4 Ebrill 2003
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
26 Mawrth 2003

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net
e-bost
pentyrch@tafelai.net

*Argraffwyr:*
**Gwasg Morgannwg**
**Uned 27, Ystad Ddiwydiannol**
**Mynachlog Nedd**
**Castell Nedd SA10 7DR**
**Ffôn: 01792 815152**

www.cwlwm.com
Gwybodaeth am holl weithgareddau Cymraeg yr ardal.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT…
**0845 6076070**
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol
www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

**Cymdeithas Gymraeg Llantrisant**

**Cinio Gŵyl Ddewi**

**Yng Nghlwb Golff Llaneirwg**
**Nos Wener 7 Mawrth**
**Manylion: 01443 218077**

## CLWB Y DWRLYN

**Bowlio Deg**
**Nos Fercher 2 Ebrill**
**7.00pm Nantgarw**

**Manylion: 20890040**

## Merched y Wawr
**Cangen y Garth**
**Noson yng nghwmni**
**Elen Rhys**
**(Adran Addysg y B.B.C.)**
**Yn Neuadd Y Pentref, Pentyrch**
**Nos Fercher, Mawrth 12**
**Am 8 o'r gloch.**

## Siop y Pentre
**Village Trading Post**

***Pentre'r Eglwys***

**Popeth ar eich cyfer**

**Bwyd - diod**
**off-licence**
**Popty - roliau**

**01443 218440**

## CYLCH CADWGAN

***Grahame Davies***
yn darllen a thrafod
ei waith ei hun
**8pm Nos Wener**
**28 Mawrth 2003**
Neuadd y Pentref, Efail Isaf
Gyda chymorth yr academi

## Cymdeithas Carnhuanawc
7.30pm Nos Fercher, Mawrth 12fed Canolfan Chapter,Treganna

**'Y GWIR YN ERBYN Y BYD'**
-bywyd a gwaith Iolo Morgannwg
gan
**DR. GERAINT JENKINS**
Cyfarwyddwr Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd
Prifysgol Cymru

## DAN Y WENALLT
Dylan Thomas
Cyfieithiad T James Jones

**THEATR Y SHERMAN, CAERDYDD**
*Swyddfa Docynnau*
*029 2064 6900*
**25 Mawrth 7.30yh**
**26 Mawrth 10.30yb**
[Oedolion £12,
Gostyngiadau £10,
Ysgolion £6.00]

**Y COLISEUM, ABERDÂR**
*Swyddfa Docynnau*
*01685 881188*
**1 Ebrill 7.30yh;**
**2 Ebrill, 10.30yb**
[Oedolion £8.00,
Gostyngiadau £6.00,
Ysgolion £4.00]

# TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Meima Morse

**Canu Carolau**
Bu criw o blant Y Dell yn canu carolau yn yr ardal adeg y Nadolig. Diolch i bawb a gyfranodd. Casglwyd £37 i Dy hafan.

**Howard Morse**
Gair gan Mima - Treuliodd Howard a minnau gyfnod gweddol mewn ysbyty ym Mirmingham ac mae'r newyddion yn ffafriol dros ben am y dyfodol. Gyda llaw, clywson fod "bust" o aelod o'r teulu brenhinol yng nghyntedd yr ysbyty ond, i ddweud y gwir, dim ond ei phen welson ni!

Diolch a chofion cynnes at bawb, Mima.

Braf deall fod Howard wedi cael llawdriniaeth erbyn hyn ac ei fod yn cryfhau yn yr ysbyty ym Mirmingham.

**Marwolaeth**
Yn dawel a heddychlon yng Nghartref Henoed Penrhos, Llanilltud Faerdref, fe hunodd Iris Florence Carroll, gynt o Surrey, yn 81 mlwydd oed. Fe fydd Helen, Huw, Becky a Jessica Davies yn gweld ei heisiau. Hoffai'r teulu ddiolch i staff 'Penrhos' am y gofal a chariad arbennig a ddangoswyd iddi ers iddi ddod yno dwy flynedd yn ôl. Diolch hefyd i'r Parch Peter Cutts, Capel Salem, Tonteg am gymryd y gwasanaeth oedd yn gysur i'r teulu.

## Capel Salem

· Bu amryw o wasanaethau carolau i ddathlu'r Nadolig gan gynnwys ymweliad gan Côr Ysgol Gwaun Celyn.

· Roedd yn fraint ac anrhydedd i groesawu Bill a Nesta Rogers yn aelodau yng nghapel Salem er eu bod yn ffyddloniaid i bob achos ers dros flwyddyn a'r gymdeithas yn gyfoethocach o'u teyrngarwch (heblaw sôn am yr hiwmor!).

· Mae'n hyfryd gweld nifer cynyddol yn mynychu'r Gwasanaeth Cymraeg am 9 o'r gloch y bore a'r Oedfa Deuluol newydd am 11 o'r gloch.

· Yn y Cwrdd Blynyddol pasiwyd yn unfrydol dros gadw'r gweinidog am sbel ymhellach.

· Dymuniadau gorau am wellhad buan i Loreena gwraig Gary Pugh a gafodd drawiad ar ei chalon a chyfnod bregus iawn yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

· Cydymdeimlwn â Christine Jones a gollodd ei mam ychydig cyn Nadolig.

**Y Gymdeithas Gymraeg**
· Diolch i Christine Jones am drefnu Swper Nadolig a gynhaliwyd yn y Crown. Roedd yn noson ddifyr ac yn uchafbwynt y flwyddyn.

· Yng nghyfarfod cyntaf 2003 gwirfoddolodd yr aelodau i roi disgrifiad ynglyn â sut treuliasant yr ŵyl. Dyma noson llawn hwyl arall er na chafodd pethau na fyddai'n addas ei hailadrodd mewn festri capel mo'u sôn amdanyn nhw wrth gwrs!

# GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

**Dosbarth Cymraeg**
Roedd y drefn ychydig yn wahanol yn nosbarth Cymraeg Calfaria un prynhawn Dydd Mawrth yn ddiweddar oherwydd cafwyd parti i ddathlu penblwydd arbennig Mr Howard Reed yn 80 oed . Mae Mr Reed sy' n byw yn Nhonyrefail wedi bod yn ffyddlon iawn i'r dosbarth ers pum mlynedd. Pan oedd yn ifanc roedd yn hoff iawn o fynd ar deithiau ar gefn ei feic ond mae' n defnyddio' r car yn awr . Mae e'n hoff iawn o gerdded o hyd ac mae e'n cerdded pum milltir bob dydd yn mynd â'r ci am dro. Llongyfarchiadau Howard a dymuniadau gorau am sawl penblwydd eto.

Mae dosbarth arall yn cyfarfod yn Neuadd Cambrian Avenue ar nos Fawrth, ac mae nhw wedi bod yn dathlu geni Anna merch fach Elizabeth a Philip ar Ionawr 25ed. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

**Gwellhad Buan**
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Miss Ray Thomas Wood Street sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty'r Waun Caerdydd. Gobeithio y bydd hi nôl adre yn fuan iawn.

**Cynllun Chwarae**
Cynhaliwyd Cynllun chwarae llwyddiannus iawn dros Gwyliau Hanner Tymor yn y Neuadd Gymunedol. Thema'r gweithgareddau y tro hwn oedd 'Roc a Rol' Bu'r plant wrthi drwy'r wythnos yn dysgu dawnsio Roc a Rol,yn cynllunio a gwneud Juke Box ac yn cynllunio a gwneud eu gwisgoedd ar gyfer y parti a gynhaliwyd ar y prynhawn dydd Gwener. Roedd y neuadd wedi ei addurno â phosteri o waith y plant ac roedd y parti yn llwyddiant ysgubol a phawb wedi mwynhau ei hun yn fawr iawn ac wedi dysgu llawer tra'n mwynhau. Llongyfarchiadau i staff y Ganolfan a'r gwirfoddolwyr a fu'n eu cynorthwyo.

**Cofiwch Gloi'r Drws!**
Roedd Mrs Gwyneth Abraham,sy'n 89 oed wedi gadael drws ei fflat heb ei gloi am bedwar o'r gloch y prynhawn gan ei bod yn disgwyl yr ofalwraig i alw. Pan ddaeth hi allan o'r ystafell ymolchi roedd dyn yn ei fflat a dywedodd fod merch yn ei ystafell fyw. Aeth Mrs Abraham i edrych a rhedodd y ddau allan. Pan aeth Mrs Abraham i'r ystafell wely roedd ei bagiau ar hyd y lle a' i harian wedi diflannu. Mae'r heddlu yn chwilio am y lladron.Trwy drugaredd ni chafodd niwed corfforol ond mae'r sioc yn ofnadwy ac mae pawb yn teimlo drosti.Anfonwn ein dymuniadau gorau ati a mawr obeithiwn y bydd hi'n teimlo'n well cyn bo hir.

# YR HYBARCH WILLIAM EVANS TONYREFAIL.


Yn hanes Dadgorffori Capel Y Ton yn rhifyn diwethaf Tafod Elái soniais am y gŵr hynod sef yr Hybarch William Evans Tonyrefail. Dechreuaf drwy olrhain ei deulu eu dadcu Evan David a'i dad David Evans rhai a fu yn gefnogol a chymorth i William Evans.

Daeth William Evans yn un o bregethwyr mwyaf yr hen Gorff bron gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac amaethu hefyd. Mae yn fendith fawr i mi fy mod wedi cael llyfr Cofiant Parchedig William Evans a ysgrifennwyd gan ei ŵyr William Evans M.A. o Brifysgol Glasgow yn 1892.

Ganwyd y Parchedig William Evans Tonyrefail ar un o ddyddiau olaf Mis Ebrill 1795 does ddim sicrwydd o'r dyddiad cywir. Yn ffermdy Garthgraban Fach ym mhlwyf Llantrisant Swydd Forgannwg mab ieuengaf yr ieuengaf ond un o blant David ag Elizabeth Evans o'r lle hwn.

Roedd David Evans yn fab i Evan David o'r Rhagat tyddyn bychan sydd yn sefyll i'r chwith o'r ffordd o Bont Y Pridd i Donyrefail drwy Bencoedcae, ac o fewn i hanner milltir i Blasdu Treferig, ar lan yr afon Mychydd. Roedd Evan David yn dilyn y Grefft wniedydd ag yn ŵr deallus a chrefyddol ac yn mynychu y Capel Bach Tonyrefail. Saif y lle hyd heddiw, man lle cwrdd y Scowtied erbyn hyn. Cangen o Eglwys Llantrisant oedd y Capel Bach. Fe'i codwyd ar gyfer y rhan uchaf o blwyf Llantrisant. Yn agos i Rhagat yr oedd yna gapel bychan yn perthyn i'r Cyfeillion Crynwyr neu fel eu gelwyd gan rai "Quakers" a safai hwn hefyd ar lan y Mychydd. Mae yn debyg fod Evan David wedi mynychu'r oedfaon yno yn achlysurol.

Roedd gan Evan David dri o feibion a dwy ferch ac un o'r meibion oedd David Evan a gymrodd enw cyntaf ei dad fel yr oedd yn draddodiadol yng Nghymru yn y cyfnod hynny, ganwyd ef yn y flwyddyn 1757. Pan yn fachgen danfonwyd ef i un o ysgolion Rhad Cylchynol y Parchedig Griffith Jones Llanddowror a gynhaliwyd yn Castellau a daeth i fedru darllen ag ysgrifennu yn dda ag astudio'r Beibl yn drwyadl. Mae'n debyg iddo yntau fynychu'r cyfarfodydd yng nghapel y Cyfeillion, ond ymuno wnaeth â'r achos




Fethodistiaeth a oedd yn cwrdd ym mhlasdy y Collena Tonyrefail a daeth yn uchel ei barch gan deulu'r Prichards a oedd yn byw yno, y rhain a oedd wedi croesawu dechrau achos y Methodistiaid yn Nhonyrefail i'w cartref yn Collenna ac yn wir rhoi tir i adeiladu Capel ar y Ton yn ddiweddarach.

Roedd yna ferch mewn gwasanaeth yn Collena Elisabeth Morgan, merch oedd i Richard Morgan y Rhiw. Mae'n debyg i lygad mab y Rhagat syrthio arni, gyda boddlonrwydd y feistres o Collena, ar y 6ed o Ebrill 1777 fei priodwyd. Ar ôl priodi aethant i fyw i felin Treferig am gyfnod byr ac yna ymsefydlu yn Garthgraban Fach "Scrapan" fel ei gelwyd ar lafar gwlad. Saif Garthgraban ar lecyn uchel uwch ben Coedlai rhwng yr afon Elai ar Mychedd. Mae'r ddwy afon yn uno yn agos i'r Ysbyty newydd yn Ynysmardy.

Ganwyd i David ag Elisabeth Evans ddeuddeg o blant. Bu farw pedwar ohonynt yn ieuanc sef Richard ar Fawrth 15fed 1787 yn dair mlwydd oed , Richard eto Gorffennaf 5ed 1788 yn naw mis oed, Evan Gorffennaf yr 2ail 1789 yn dair oed a Alice Medi 9fed 1798yn 13eg oed. Roedd yn golled fawr i'r teulu ar eu hôl. Yr hynaf oedd Mary a briododd â Richard Morgan. Magwyd deuddeg o blant, yr ail oedd David a phump o feibion. Ŵyr iddo oedd yr Henadur David Evans, Arglwydd Faer Llundain 1881-1882, Thomas yn briod a Barbara wyth o feibion a dwy ferch, Richard a'i briod deg o blant, Susanah briod a Morgan Morgan ganwyd iddynt ddeg o blant, Evan wyth o blant, William gwrthrych yr hanes hyn ar ieuengaf Margaret briod a Thomas Williams o Sir Frycheiniog a chafwyd deg o blant. Bu hi yn gymorth i olrhain yr hanes hyn roedd ganddi gof rhagorol.

Bu farw Mrs Elisabeth Evans yn 1822 a bu farw David Evans yn1834 yn 77oed, roedd yn ddall yr wyth mlynedd ola o'i fywyd. Eithr os collodd ei olwg ni chollodd dim o'i graffter; nid oedd dim yn cael dianc heb ei fod yn mynnu ei wybod. Fel y gweler roedd y teulu ar achau wedi tyfu'n enfawr dywedir fod deg a thri ugain o wyrod ag wyresau ag orwyron ag orwyresau yn ei angladd.

Fe ddaliodd cyfeillgarwch annatod rhwng teulu Garthgraban a theulu Collena hyd y diwedd. Tipyn o hanes William Evans fydd yn y dyfodol.




**Tonyrefail yn 1890'au**

**Fferm Garthgraban**



# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**GENEDIGAETHAU**
Llongyfarchiadau i Iolo a Catrin Roberts, Nant y felin, Heol Ffrwd Philip ar enedigaeth mab bach, Gruffydd, ddechre' Chwefror. Brawd bach i Branwen,

Llongyfarchiadau i Mike a Lyn West, Parc Nant Celyn a hwythau hefyd wedi cael rhodd o fab arall, Croeso i Steffan Dafydd, brawd bach i Tomos ac Iwan,

Llongyfarchiadau hefyd i Heulyn a Catrin Rees ar enedigaeth merch fach, Brengain.

**CROESO**
Pleser yw cael croesawu dau gwpl arall i'r pentref y mis hwn.

Mae Ann a Richard Griffiths wedi dod i fyw i Nant Celyn. Mae Ann yn feddyg ym Mhontyclun a Richard. yn Bennaeth yr Adran Ffiseg yn Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun. Mae'r ddau'n gyn-ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Llanhari,

Croeso hefyd i Caryl a Gareth Hall Williams sydd wedi ymgartrefu yn Heol y ffynnon. Mae Gareth yn Bennaeth Adran Astudiaethau Busnes yn Ysgol Gyfun Plasmawr, Caerdydd ac mae Caryl yn athrawes Gymraeg yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni,

**Dymuniadau gorau**
Dymunwn yn dda i Colin Griffiths, Heol y ffynnon, sydd wedi bod yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Cliff Hewitt a'r teulu ym Mhenywaun ar golli dwy fodryb - chwiorydd ei fam, y diweddar Mrs Sephora Hewitt. Roedd y ddwy yng Nghartref Nyrsio Oakwood yn Aberdar a bu'r ddwy farw o fewn dyddiau i'w gilydd a'r ddwy wedi cyrraedd oedran mawr. Bu farw Mary ar ddiwrnod ei phen-blwydd yn gant oed.



**Eleri Edmunds a Daniel Morrison**

**Priodas Eleri a Daniel.**
Llongyfarchiadau i Eleri Edmunds a Daniel Morrison ar eu priodas yng Nghapel Y Tabernacl, Ddydd Llun, Rhagfyr 30ain. Merch hynaf John a Pat Edmunds Penywaun, yw Eleri ac mae Daniel yn hannu o Bedford. Edrychai Eleri yn hyfryd iawn mewn ffrog aur a chot o froced lliw hufen ac aur. Athrawes yn Ysgol Sant Curig Y Barri yw Eleri ac mae Daniel yn gweithio yng Nghaerdydd ym myd Busnes a Marchnata. Pob dymuniad da i'r ddau i'r dyfodol a marciau llawn i Dan am gyfansoddi cerdd yn y Gymraeg a'i darllen i Eleri yn y wledd.

**MRS MARGARET HARTE.**
Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Margaret Harte a fu farw yng Nghartref Nyrsio Brynawelon, Cricieth ar y bumed ar hugain o Ionawr a hithau yn ddeg a phedwar ugain oed. Bu Mrs Harte yn byw ym Mronygraig Efail Isaf am flynyddoedd lawer cyn symud i fyw yn gyntaf i Ganolbarth Cymru ac yn ddiweddarach at Rhiannedd, ei merch i Drefor yng Ngwynedd.
Bu Mrs Harte yn weithgar iawn yn ystod y cyfnod y bu'n byw yn Efail Isaf. Roedd yn athrawes Ysgol Sul yng Nghapel Y Tabernacl a gweithiodd am flynyddoedd lawer yn cynorthwyo Miss Margaret Rosser a Miss Winnie Griffiths yn Ysgol Feithrin Gwynfa (yr ysgol a fu'n bwydo Ysgol Garth Olwg o'r dechrau). Gweithiodd hi a'i diweddar ŵr, Eric yn ddiflino i gasglu arian i godi Neuadd y Pentre yn Efail Isaf.

Roedd y Gwasanaeth Angladdol yn Amlosgfa Glyntaf brynhawn Llun, Chwefror 3ydd. Cydymdeimlwn â Nita, ei chwaer, Raymond ac Edward ei meibion a Rhiannedd ei merch a'u teuluoedd yn eu colled a'u galar.

## Y TABERNACL

**N0S0N RIBIDIRES**
Bydd Teulu Twm yn cynnal noson i godi arian i gronfa Arch Noa yn Neuadd y Pentref ar Nos Wener Chwefror 28 ain. Cewch noson o hwyl a phryd o fwyd hefyd.
Cofiwch ddod i gefnogi'r bobol ifane a chronfa Arch Noa.

**TREFN YR OEDFAON**
Mawrth 2. Oedfa Gymun dan ofal Y Gweinidog
Mawrth 9 Mr Emlyn Davies
Mawrth 16 Mr Geraint Rees
Mawrth 23 Y Parchedig Eirian Rees.
Mawrth 30. Mr Graeme Davies

Os am
**DIWNIWR PIANO**
*Cysyllter â*
**Hefin Tomos**
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
**Ffôn: 029 20484816**

# YSGOL GYMRAEG TONYREFAIL

Yn ystod y mis cawsom ymweliad gan ddau o brifeirdd Cymru, sef Iwan Llwyd a Myrddyn ap Dafydd. Aethant ati i greu barddoniaeth ar y cyd gyda blynyddaedd 5 a 6. Roedd hyn yn ffordd ardderchog i fagu diddordeb mewn barddoniaeth. Yn wir gwelwyd y plant yn mynd ati i greu cerddi gyda blas yng nghwmni y ddau feistr. Dyma ffrwyth eu llafur.

Ym myd cerddoriaeth cawsom ymweliad gan Mrs Glenda Hexter. Cawsom hanes y delyn yng nghyd a'i chlywed yn cael ei chanu. Mae yn wir i ddweud i blant yr adran Iau gael eu gwefreiddio gan y perfformiad. Gwelsant pa mor hyblyg mae'r offeryn i berfformio gwahanol fathau o gerddoriaeth.

Ymwelodd yr adran Iau hefyd a'r "Ffatri Bop" ym Mhorth i glywed grwpiau Cymreig newydd yn perfformio. Mae'r rhaglen o dan sylw yn cael ei darlledu ar y 6ed o Fawrth. Felly edrychwn ymlaen i'w gweld.

Bu'r timoedd pel droed yn hynod a brysur. Yn gyntaf bu tim y merched yn chwarae yng ngystadleuaeth yr Urdd gyda chryn lwyddiant. Dyma'r canlyniadau :
Tonyrefail 3 Llwyncrwn 0
Tonyrefail 2 Gartholwg 1
Tonyrefail 1 Penyrenglyn 1



**Tîm pêl-droed y merched**

Llwyddiant ddaeth i rhan tim y bechgyn hefyd yng ngystadleuaeth clwb pel droed Caerdydd wrth iddynt ennill y rhan gyntaf. Dyma'r canlyniadau :
Tonyrefail 1 Elliott Town 0
St Cuthberts 0 Tonyrefail 3
TriNant 0 Tonyrefail 0

Nid dim ond ym myd pêl droed y bu'r plant yn cystadlu. Ond hefyd yn y Cwis Llyfrau i lawr ym Mhenybont. Ar ddydd Iau y 13eg o Chwefror teithiodd dau dim dewr i lawr i'r ornest wedi darllen eu llyfrau o glawr i glawr. Ond rhaid aros yn awr am y canlyniadau.

**Mrs Glenda Hexter yn sgwrsio am y delyn**



*Twrch Tonyrefail*

Mae tai yn crynu yn y nos,
A tapiau yn dripian yn gynt,
Lliw oren a brown yn y dŵr,
Arogl mwydod ar y gwynt.

Mae`r biniau ar chwâl dros y stryd,
Draw ar y mynydd mae marc
Mae`r sied wedi suddo`n yr ardd,
Ac ôl pawennau rhyfedd yn y parc.

Mae ramp o goncrit wrth y giat,
Mae`r ceir mewn tyllau ar y stryd,
Mae criw newyddion ar y sgwâr
Yn rhoi`r stori i weddill y byd.

Mae defaid wedi diflannu`n llwyr
Yn Collenna a Tylcha Fawr,
A`r ffermwyr wedi cael rhyw gip
Ar dwrch gyda chysgod cawr.

Yn ôl rhai o löwyr yr ardal,
Roedd rhywbeth yn byw yn y pwll,
Yn hoff o dywyllwch a llonydd,
A byth yn dod mas o`r twll.

OND, mae`r gwanwyn cynnar yn galw,
Mae calon y twrch ar ras,
Mae`n chwilio am gariad Gŵyl Dwynwen,
A dyna pam fod e mas!

Blwyddyn 6
a
Myrddin ap Dafydd

Adref

Mae hon yn ardal arbennig i mi
rhwng y GilfachGoch a Choed Elai,
lle mae'r melinau gwynt yn troi a throi
a phobl yn siarad yn nrysau'r tai:
lle mae'r defaid yn crwydro o le i le,
yn union fel cymylau gwyn,
yn pori'r bryniau, yn dilyn hen lôn,
yn mynd o'r Waun i Fynydd y Glyn:
lle mae'r tylluanod yn hela'r nos
a'r llwynog cyfrwys yn llarpio'i brae,
a'r ffermwr dewr yng Ngelli Seren
yn gwylio'i braidd dros gât y cae:
lle mae'r boncath yn hofran ar y gwynt
uwch Tylcha Ganol a Thylcha Fawr,
a Nant Eirin yn llifo drwy'r mwsog llaith
i groesawu pelydrau cynnes y wawr.
O Heol Collenna i Stryd Caergwerlas,
O Heol Gilfach i'n hysgol ni.
Mae popeth i'w gael - a dyna pam
Mae hon yn ardal arbennig i mi.

Blwyddyn 5 ac Iwan Llwyd
2002 - 2003

# CYSTADLEUAETH IOLO MORGANWG 2003



## Beirniadaeth Llion Roberts

Dyma gystadleuaeth boblogaidd iawn, a derbyniais 548 cerdd! Roedd y safon yn foddhaol iawn.

### Cystadleuaeth Blwyddyn 7
### Testun: Un Noson

Darllenais 120 cerdd, a phob un ohonynt yn disgrifio noson ym mhrofiad go-iawn neu ddychmygol yr ymgeiswyr. Cafwyd cerddi am nosweithiau arbennig, megis Calan Gaeaf, noswyl Nadolig neu noson pen-blwydd. Cafodd eraill brofiadau rhyfedd iawn. Credodd rhai iddynt weld creaduriaid erchyll ond anifeiliad anwes neu adar oeddynt – gall pethau normal edrych yn rhyfedd a sinistr yng ngolau'r lloer.

Hoffais ddisgrifiad Emma Grant, Llanhari, o'r awelon yn codi ac 'yn sibrwd rhwng ei gilydd', a darlun Hannah Jones, Plasmawr, o'r 'glaw yn taro fel mil o fysedd ar fy ffenest'. Hoffais hefyd ddisgrifiad Alun Evans, Rhydfelen, o'r lleuad 'fel goleudy'r awyr'. Darlun da a bygythiol sydd gan Danny Owen, Rhydfelen, o lofrudd 'a'i ddryll yn ddu yn ei law'. Disgrifiad byw iawn o storm yn y nos a geir gan Osian Richards, Glantaf:

Coedwig yn siarad efo'i gilydd,
mellten fel camera yn fflachio.

Golygfa o'r eira yn y nos, y 'dagrau disglair', sydd gan Gwenno Brown, Glantaf, ac mae'r darlun yn gorffen â'r llinell hyfryd: 'Clywed y byd yn ei dawelwch unwaith eto.' Mae gan y tawelwch hyd yn oed ei sŵn ei hun. Cofiadwy iawn yw disgrifiad Tomos Williams, Glantaf, o'r lleuad

yn hongian ar erchwyn y noson,
fel mwclis ar gornel bwrdd.

Mae breuddwyd Carys Johnson, Rhydfelen, yn llawn o bethau rhyfedd a doniol:

Moch bach glas, cymylau melyn ac ar ben y cyfan
Ych a fi! Mae nain wedi tyfu barf!

Daeth 8 cerdd i'r brig. Breuddwyd iasol oedd gan Ceri Craven, Llanhari, sy'n canfod ei hun mewn mynwent ganol nos. Delwedd llawn awyrgylch yw dweud bod y 'niwl yn sibrwd rhwng y beddau du'. Noson o aeaf a geir gan Ffion Sayer, Llanhari, ac mae'n gosod yr awyrgylch yn syth.

Canol gaeaf oer,
Dim siw na miw
Ond golau llachar lloer
A charped eira ar y rhiw.

Gweld y dylluan un noson sy'n mynd â bryd Elin Davies, Llanhari. Unwaith eto, dyma ddawn i ddisgrifio ac i greu awyrgylch:

Hedfanodd fry uwchben fy mhen,
Ei adenydd main yn gwibio,
Uwchben y goedwig dywyll ddu,
A'i lygaid yn disgleirio.

Cerdd dda ac uchelgeisiol sydd gan ymgeisydd dienw, Llanhari, am dreulio noson ei phen-blwydd yn San Tropez. Wedi gweld y sgiwyr dŵr fel 'dolffins godidog ar Tropez a gweld y palasau 'yn disgleirio fel diamwntiau hudol ar y gorwel', daw gwir gyfoeth iddi yng nghofleidiad mam sydd 'yn fwy gwerthfawr na dim'.

Gosodais gerddi Lewys, Rhydfelen, a Lowri Kenny, Llanhari, yn gydradd drydydd. Cerdd dda am dylwyth teg y dannedd sydd gan Lewys, pob un â 'mwclis o ddannedd hardd'. Cerdd lawen llawn hiwmor sydd gan Lowri am ennill y loteri. Mae'n gerdd slic sy'n gwneud defnydd da o rythm ac odl. Ar ddiwedd y gerdd mae'n disgwyl am chweched bel y yr ewyn gwyn', a'r syrffwyr fel 'pilipalod lliwgar chwim', daw at uchafbwynt yn y pennill olaf. Wrth ddychwelyd o gyfoeth San

loteri i ddod o'r peiriant:

Chwysu chwartia – dyma hi
fy rhif gorau – tri deg tri!
Un noson dyma fo!
Mega miliwn hei-di-ho!

Dwy gerdd dda iawn a gwahanol iawn a ddaeth i'r brig. Cerdd Gwenan Evans, Llanhari, sy'n ail. Dyma gerdd ar fydr ac odl a'm difyrrodd o'r darlleniad cyntaf. Mae'n dweud ei stori'n dda ac mae'r gallu i ddisgrifio yn amlwg. Mae'n sôn am weld cawr yn yr ardd:

Roedd ganddo freichiau hirion
A bysedd cul a hir.

Mae'r cawr yn dechrau gwichian ac mae ofn yn oeri ei gwaed. Ond yna daw rhyddhad:

Wrth weld taw coeden oedd yno
A thylluan yn canu o'i bron!

Yn gyntaf, gosodais gerdd deimladwy Carys Huws, Plasmawr. Dyma gerdd gynnil a chelfydd, sy'n ailadrodd y geiriau 'Un Noson' ar ddechrau pob pennill i greu effaith. Cerdd ydyw sy'n pigo'r cydwybod heb bregethu. Canodd ar destun anodd ac aeddfed iawn, ac er bod anobaith yn ei disgrifiadau nid yw'n llethu'r gerdd am fod gobaith yn nyhead syml y llinell olaf.

**Blwyddyn 7: 'Un Noson'**

1 Carys Huws, Plasmawr
2 Gwenan Evans, Llanhari
3 Lowri Kenny, Llanhari;
Lewys Isaac, Rhydfelen

Agos i'r brig
Dienw, Ffion Sayer, Elin Davies, Ceri Craven, Llanhari



**Carys Huws**

**Un Noson**

Un noson yng Nghymru,
caiff Rhys gysur a chariad ei rieni,
a digon o fwyd
i'w gadw'n heini.

Un noson yn Simbabwe,
caiff Samuel friwsion o'r tiniau,
mae'n cerdded drwy'r strydoedd yn edrych trwy finiau.

Un noson ym Mrasil,
caiff Pedro un geiniog am lanhau esgidiau ar y stryd,
tra bod pobl gyfoethog yn eu cartref clyd.

Un noson yn Irac,
caiff Mohamed a'i deulu fraw wrth glywed y newyddion
am y bomio gerllaw.

Un noson efallai bydd pawb yr un peth . . .

Carys Huws
Ysgol Gyfun Plasmawr

**CYSTADLEUAETH IOLO MORGANWG 2003**



## Blwyddyn 8 a 9
## Testun: Y Ddawns

Darllenais 219 cerdd! Dawns ysgol neu ddawns gymdeithasol yw testun llawer. Ceir blas o nerfau, emosiynau, cariadon a churiadau'r ddawns. Mae rhai'n cuddio yn y corneli, ond mae eraill, fel Rachel Perry, Rhydfelen, yn ymollwng yn llwyr i ryddid y ddawns:

> Agor y drws, i mewn â fi
> Yn sgleiniog ac yn *glam* i gyd,
> Yn dawnsio ac yn canu, yn cael hwyl a sbri,
> A does gen i ddim ots yn y byd.

Sonia Alex Spencer, Rhydfelen, fod 'Fy mreichiau yn nofio efo curiad y gân'. Y mae'r miwsig yn rheoli'r corff. Tebyg yw dawnswyr cerdd Mabli James, Plasmawr, sydd â 'rhythm y Tango yn rhedeg trwy eu gwaed'. Mae rhythm y gân a rhythm y digwyddiad yn gallu rhyddhau a chaethiwo yr un pryd, felly. Sylwer ar arddull glawstroffobig Elis Williams:

> Cyrff yn cynhesu,
> 'Stafell yn poethi
> Golau'n pelydru,
> Awyrgylch yn trydanu.

Hyd yn oed wedi'r ddawns, mae ei sŵn yn gafael o hyd, 'yn morthwylio yn fy mhen', meddai Dewi Rees, Rhydfelen.

Gwelodd eraill ddawns ym myd natur. Mae dawns yr eira 'fel addurniadau ar yr awel' i Lewis Roberts, Glantaf, tra bod Rebecca Ffion Galt, Llanhari, yn disgrifio dawns dail yr hydref yn

> Hwylio dros donnau o frigau
> Yn dawnsio fel balerinas mewn sioe.

Daeth 13 cerdd i'r brig. Disgrifia Rhiannon Knighton, Llanhari, ddawns y dail wrth iddynt 'symud i ganeuon y gwynt a'r awel'. Daw Nerys Williams, Glantaf, â byd natur i'r disco yn effeithiol; mae'r 'llawr sgleiniog yn llyn tawel, llonydd'. I'r môr yr â Daniel Gwyn Hughes, Plasmawr. Ceir disgrifiad da o'r tonnau:

> Dawnsiai'r ceffylau gwynion
> Mewn rhes ar draws y lli.

Y mae dawns y môr yn gyfystyr â dawns bywyd i Geraint Thomas, Glantaf, ac yn gefnlen i ddigwyddiadau mawr bywyd. Yn debyg i Billy Elliot yn y ffilm, dianc problemau teuluol drwy ddawnsio bale a wneir yng ngherdd uchelgeisiol Mirain Dafydd, Plasmawr. Er cyrraedd uchelderau'r proffesiwn, ni all anghofio ei phlentyndod anhapus. Ceir disgrifiadau hyfryd ohoni fel tylwythen deg yn dawnsio, y gynulleidfa 'yn haid o löynod byw' a'r goleuadau 'yn flodau lliw'. Ar ddiwedd y gerdd, y ddawns sy'n ei hachub:

> Mae'r un seren ddisglair yno o hyd,
> Yn symbol o obaith.

Cerdd syml sydd gan Ifan Patchell, Glantaf, ond un sy'n cyfleu awyrgylch arbennig, megis pan mae'n sôn bod y 'dail yn piriwetio'.

Cerdd Rachael Griffiths, Rhydfelen, sy'n drydydd yn y gystadleuaeth. Mae cynnwys y gerdd fedrus hon yn symud yn gyflym a llawen i rythm y ddawns:

> Diffoddwch y golau,
> Caewch y drws.
> Nos Sadwrn 'di dod
> Efo Rhythm a Blues.

Brenhines y disco yn wir, nes daw'r tro annisgwyl ar ddiwedd y gerdd i synnu ac i sobri:

> Ond er ei thalent mwyaf
> Ni all neb anwybyddu
> Ei bod mewn Cadair Olwyn!

Cerddi Siôn Davies, Glantaf, a Sara Williams, Glantaf, sy'n gydradd ail. Dawns bywyd sydd yn nhelyneg Siôn, ac mae'r delweddu'n effeithiol. Mae'r ddawns yn 'simffoni o brofiadau' ac mae'i fywyd yn symud 'i guriad y ddawns'. Ond, yn wyneb marwolaeth, sylweddola y bydd dawns bywyd yn parhau:

> Cyn i'r nos fy llyncu
> Sylweddolaf y bydd dawns eto
> Yfory
> Hebof fi.

Disgrifiad crefftus o ddawnsio sydd gan Sara. Mae'r dawnsiwr yn 'ffrwydriad egnïol o rythm' ar y llwyfan, ac mae'r delweddu a'r dweud yn gynnil:

> Y cyffro'n codi
> A hithau'n llamu,
> Pob cyhyr yn ehangu.

Dyma gerdd fedrus wedi ei llunio'n gelfydd y gellir ei darllen ar sawl lefel.

Daeth cerdd Iolo James, Llanhari, i frig y gystadleuaeth ar y darlleniad cyntaf, ac arhosodd yno. Dawns 'yr Haka' sydd wedi tanio ei ddychymyg, a cheir ganddo ddisgrifiadau ardderchog yn llawn delweddu cyffrous. Mae'n symud yn grefftus o ddawns llwythau'r Maori i ddawns chwaraewyr rygbi Seland Newydd, gan ein hatgoffa o hanes a phwrpas y ddawns ryfel hon. Mae crefft y gerdd yn priodi'n effeithiol â'i chynnwys. Nid yw'n llusgo o gwbl, a llwydda i ddal sylw hyd y diwedd. Mae'r defnydd amlwg o gyflythrennu, a'r defnydd o iaith y Maori, yn ategu at danbeidrwydd y gerdd. Cerdd gampus.

**Y ddawns**
**(Mewn teyrnged i'r Maori)**

Tane-rore, Tane-rore!
Ffrwyth priodas danbaid Duw yr Haul â Morwyn yr Haf,
Dirgryniadau yr awel chwilboeth yn tanio fel anadl draig,
Bysedd o awyr trwm yn fflician fel tonnau o geiser gwyllt.
Ysbryd y ddawns yn ffrwydro cenedl y Maori.
Tane-rore, Tane-rore!

Ka mate, Ka mate!
Cewri cyhyrog yn croesaw'r frwydr,
Croen patrymog fel tarian Geltaidd,
Lleisiau dwfn yn atseinio'n groch a
Chyhyrau'r bochau yn cloi fel feis.
Banllefau bygythiol yn byrlymu o'u boliau,
Tafodau trwchus fel teirw du yn rhuthro'r matador,
Llygaid bywiog yn pefrio fel wyau wedi'u ffrïo a'r
Traed yn stampio i guriad y drwm.
Ka mate, Ka mate!

Ka ora, Ka ora!
Crysau sgleiniog duon yn dynn ar eu cyrff,
Gosod sialens i'r gelyn ar draws y llinell wen,
Tawelwch ofnus cyn i'r naid bwerus olaf ddeffro'r dorf a'r
Llwyth dawnus o bymtheg yn ymestyn ar draws y carped gwyrdd.
Sgrech y chwiban yn rhyddhau'r milgwn chwim,
Llamu yn y llinell fel dawnswyr bale o Moskva,
Cân a chlapio'r dorf yn rhythm i'r ochrgamwyr llithrig slei,
Bysedd cyflym y fflamenco yn chwipio'r bêl o dân o un i un
Cyn croesi'r llinell a hollti'r pyst â balchder.
Ka ora, Ka ora!

Haka, Haka!
Dawns ysbryd y Duwiau yn clymu ddoe a heddiw,
Dawns egnïol y Maori yn twymo'r galon,
Haka, Haka!

Iolo James
Ysgol Gyfun Llanhari

## Blwyddyn 10 a 11
**Testun: Eiliad**

Daeth 103 cerdd i law. Mae nifer fawr o'r cerddi'n disgrifio rhyw eiliad arbennig, fel disgrifiad Nia-Joelle Weinzweig o'r eiliad y torrodd llestr ei mam:

Â sŵn fel taran gyntaf storm,
Cyn i'r storm ddod o enau mam,
A'r ci'n sleifio'n euog o'r golwg.

Ceir cerddi am eiliadau arwyddocaol bywyd, megis geni, syrthio mewn cariad, priodi, marwolaeth. Eiliadau o ddifa neu o ryfel a geir gan eraill. Yn anffodus, wrth dueddu i gatalogio eiliadau collir grym y dweud gan lawer ac ni eir y tu hwnt i'r digwyddiad. Eto, ceir darluniau da iawn, megis disgrifiad Gwen Holeyman, Plasmawr, o sioc drydanol:

Y trydan yn llifo trwy'r corff
Fel haig o bysgod creulon.

Braf oedd cael llinellau o hiwmor gan Laura Baggs, Rhydfelen, wrth sôn am roi genedigaeth:

Dim ond eiliad gymerodd hi,
Wel, heblaw yr awr arall o boen!

Serch hynny, eiliadau anobaith yw testun nifer helaeth y cerddi; mae rhyfel, ariangarwch, llygredd, drygioni ac ofn yn teyrnasu. Un o'r llinellau cryfaf yn y gystadleuaeth yw llinell Alun Biffin, Plasmawr, sy'n disgrifio daioni a drygioni dyn: 'yr un dwylo a fu'n mynwesu sy'n crogi.'

Daeth 9 cerdd i'r dosbarth cyntaf am fod rhaid darllen rhwng y llinellau i ganfod profiad yr eiliad. Marwolaeth yw testun cerdd deimladwy Lowri Walton, Plasmawr, a cheir clo cryf i'r gerdd:

Wrth i ti gau dy lygaid, a gorffen dy fywyd,
Mae'r haul yn machlud ar fy mywyd i.

Damwain car sydd yng ngherdd Rebecca Williams, Plasmawr, a cheir llinellau da, megis yr un o 'eiliad hiraf y ferch':

'pan saethodd fwa miniog ofn trwyddi,
wrth i olwynion y car sgrechian mewn ymdrech
i beidio â chymryd ei heiliadau oddi wrthi.

Eiliad o ffolineb yw testun Abigail Moore, Llanhari, sef dwyn o'r til yn y gwaith, ac yna mae'n difaru'r 'eiliad ddifeddwl'. Mae pob llinell yng ngherdd Sion Davies, Plasmawr, yn dechrau â'r geiriau 'un eiliad'. Rhestrir eiliadau o benderfyniadau a digwyddiadau ond mae llinellau cryfion, fel 'Eiliad i nain weld goleuni'r gorffennol', yn codi'r gerdd uwchben y catalogaidd. Rhythm cyflym parhaus yw un o gryfderau cerdd Alyce Phillips, Rhydfelen. Mae'n adlewyrchu'r panig o fod mewn car sy'n cael ei yrru orffwyll o gyflym nes bod eiliad y ddamwain yn newid popeth. Dyma enghraifft o'r arddull ddi-stop:

Teiars yn llosgi, dwylo'n chwysu,
Pobol yn sgrechian, baneri'n hedfan,
Pob eiliad yn cyfri.

Disgrifio'r eiliad orfoleddus o syrthio mewn cariad wna Tessa Bush, Llanhari, ac mae'r delweddu'n dyner ac effeithiol. Disgrifia lygaid y bachgen fel 'canol nos â gwreichion llawn sêr bythgofiadwy', cyn y daw'r eiliad dyngedfennol: 'Cwympais i'r canol nos hwnnw a boddi ymysg y sêr'.

Cerdd David Tabor, Llanhari, sy'n drydydd, a hynny am ei allu i nodi'n gynnil linellau megis

Eiliad yw oes,
Oes yw eiliad

mewn cerdd gref am ferch sy'n gaeth i'r cyffur Heroin. Yn ail gosodais Ffion Rolph am gerdd uchelgeisiol a chrefftus. Myfyrdod ydyw ar weithredoedd hanesyddol a gymerodd eiliad i'w cyflawni, ond mae canlyniadau'r gweithredoedd hynny yn parhau am byth. Mae'r delweddu yn gryf iawn ac mae'n gân aeddfed ac amserol.

Cerdd Rhys Hughes, Glantaf, yw'r orau yn fy marn i. Ynddi, mae hen ŵr yn cofio eiliad o'r rhyfel, a dinistr apocalyptaidd yr eiliad honno. Mae delweddu cynnil ac effeithiol y gerdd, yn ogystal â dawn y bardd i beintio darlun – os darlun iasol – yn codi'r gerdd i'r safle cyntaf. Unwaith eto, dyma gerdd amserol, a cherdd sy'n gafael o'r llinell gyntaf gampus ac sy'n fyw i lygaid y dychymyg drwyddi draw.

### Eiliad

Crybwyll yn crwydro caeau'r cof.
Sibrydion yn siffrwd ar awel yr ymennydd.
Fflachiad!
Atgofion yn llifo'n ffyrnig trwy'r pen,
Fel afon yn gwerthfawrogi ei blas cyntaf ar ryddid.
Rhyddid o'r argae agored a'i daliodd am oes.
Daw'r atgof anghysbell i gropian yn ôl.
Yr eiliad honno pan oedd popeth yn gwneud synnwyr,
A phopeth yn gymysgfa o ddryswch du.

Lladd, llofruddiaeth a thrais,
Mewn pentwr pendramwnwgl o dywod, dŵr a metel.
Sŵn y gynnau'n rhewi.
Bloeddiadau a sgrechiadau hyll y cerfluniau o filwyr,
Yn anadl o iâ tywyll ar yr aer.

Yr eiliad fythgofiadwy.
Wedi dychwelyd i gaethiwed yr argae.
Dal i iro wnaiff yr eiliad hon,
Yn llygaid a dagrau hen ddyn.

Rhys Hughes
Ysgol Gyfun Glantaf

**Blwyddyn 8 a 9: 'Y Ddawns'**

1 Iolo James, Llanhari
2 Sara Williams, Glantaf; Siôn Davies, Glantaf;
3 Rachael Griffiths, Rhydfelen

Agos i'r brig
Nerys Williams, Ifan Patchell, Geraint Thomas, Glantaf; Mirain Dafydd, Daniel Gwyn Hughes, Plasmawr; Rhiannon Knighton, Llanhari



**Iolo James**

**Blwyddyn 10 ac 11: 'Eiliad'**

1 Rhys Hughes, Glantaf
2 Ffion Rolph, Plasmawr
3 Daniel Tabor, Llanhari

Agos i'r brig
Rebecca Williams, Sion Davies, Lowri Walton, Plasmawr; Abigail Moore, Tessa Bush, Llanhari; Alyce Phillips, Rhydfelen

## CYSTADLEUAETH IOLO MORGANWG 2003



## Blwyddyn 12 a 13
## Testun: Tawelwch

Derbyniais 17 cerdd. Roeddwn yn gobeithio derbyn mwy na disgrifiad syml o dawelwch, ac ni chefais fy siomi.

Tawelwch gweddillion y tyrau a ddinistriwyd ar 11 Medi 2001 yw testun Emily Rebecca John, Rhydfelen. Mae clo'r gerdd yn syml ond eto yn rymus:

> Ac ar ôl y sgrechian a chrio
> A gweiddi a gwaedu –
>
> Mae'n anodd derbyn y tawelwch.

Diwedd perthynas yw tawelwch Mari Griffiths, Glantaf. Mae ganddi linellau cryfion yn y gerdd, ac mae'r geiriau effeithiol 'a thawelwch pia' hi' ar y diwedd yn nodi mai tawelwch y gwahanu sy'n weddill o'r berthynas bellach. Ail ymgais Mari Griffiths, Glantaf, yw'r gerdd '9.11', sef cyflafan y tyrau yn Efrog Newydd. Ceir delweddu cryf, megis bod 'Concrit a gwydr yn syrthio fel glaw'. Hoffaf y darlun teimladwy o'r bachgen yn dal llun o'i fam goll 'tra bod Efrog Newydd yn wenfflam'. Cerdd gref iawn.

Cerdd Catrin Middleton, Plasmawr, sy'n drydydd. Colli cariad sydd yma, a merch o'r herwydd yn dioddef iselder ac yn cysidro lladd ei hun. Cerdd gymhleth yw hon, ond cerdd sy'n cynnwys delweddu effeithiol, ac mae trymder a chynildeb yr arddull yn gweddu i feddylfryd y ferch. Nid yw popeth yn eglur yma, megis yn y pennill effeithiol hwn:

> Dyfnach fyth y creithie lle bu dagre drud yn sgrechian ar rudd,
> Gwrid gwreichion yn tasgu,
> Amddifad fu gwrid serch.

A oes awgrym o drais yn y berthynas, neu ddiffyg cariad? Rhywsut, mae'r dirgelwch hwn yn ategu at rym y gerdd. Mae'n cloi â llinell iasol a champus: 'Tawelwch byddarol yw bywyd y bedd.'

Mae Ruth Davies, Plasmawr, ac Alex Clatworthy, Plasmawr, yn gydradd ail yn y gystadleuaeth. Cerdd syml yw cerdd Ruth, sy'n sôn am farwolaeth ei mamgu. Credaf fod y pennill cyntaf yn ardderchog, yn enwedig yr ail linell ysgubol:

> Wedi loes yr ymladd
> Daeth bendith caled i'n byd,
> A thawelwch dy gri dewr
> I hedd dy lygaid di.

Dyna grisialu teimladau cymaint a welodd ddioddefaint anwyliaid, rwy'n siwr. Nid yw'r ail bennill cystal er bod safon iddo, ond mae'n dychwelyd i'r uchelfannau eto gyda'r pennill olaf:

> Ond ar nos dy frwydr
> Daeth llef yr arfau i ben,
> A'r dur yng ngosteg heno'n
> Aden i 'ngalar i.

Dyma lais syml, effeithiol, sy'n gwbl rydd o'r elfen farddonllyd neu sentimental sy'n gallu andwyo cerddi teyrnged. Cerdd o safon uchel iawn.

Cerdd hir, uchelgeisiol a chymhleth ar adegau a gafwyd gan Alex Clatworthy. Eto, mae'r safon yn uchel. Wedi dyfyniad o nofel enwog Nabokov, *Lolita*, sonnir am weithred rywiol a ddigwyddodd rhwng dyn, 'Angerdd', a merch, 'Ofn':

> Mewn tawelwch y cyflawnwyd y ddefod
> A dim ond ochain anghelfydd y ferch
> Yn gefnlen i'r weithred wawraidd.

Mae'r darluniau dwysbigol yn effeithiol iawn. Credaf mai merch ifanc (onid plentyn) yw Ofn, ac felly fod Angerdd wedi cyflawni gweithred anghyfreithlon:

> Yr oedd Angerdd yn rhy hwyr yn amgyffred
> Ei dramgwydd, ei drosedd drosti.
> Talfyrru'i babandod; torri Ofn.

Wrth i'r gerdd fynd yn ei blaen, y mae Angerdd yn anniddig am fod euogrwydd y weithred yn tarfu arno.

> Roedd y bai anochel ar dawelwch.
> Tawelwch y weithred.
> Tawelwch Angerdd.
> Tawelwch Ofn . . .
> Distawrwydd yn griddfan.
> Euogrwydd tawel Angerdd.
> Gorfoledd cudd Ofn.

Ond caiff Ofn ei lladd gan Angerdd ac nid oes ond tawelwch euog Angerdd yn weddill. Dyma gerdd gref iawn sydd efallai'n rhy amleiriog. Eto, mae dweud angerddol yma.

O'r darlleniad cyntaf, ail ymgais Ruth Davies, Plasmawr, aeth â hi. I mi, saif mewn dosbarth ar ei phen ei hun. Cân i dawelwch y cwm, nawr fod mawredd a golud diwydiant wedi darfod. Dim ond yr 'esgyrn haearn' sy'n weddill, yn 'graith o gofeb ar y tir' – dyna linell ardderchog. Drwy bersonoli'r cwm a rhoi iddo nodweddion y corff dynol, a hynny'n gelfydd iawn, mae'r bardd yn pwysleisio bod y cwm ei hun yn fyw yng nghyfnod diwydiant, a cheir cyfres o ddelweddau effeithiol iawn i ddarlunio hynny: 'gwefusau'r siafft', y 'llwnc hir i stumog 'rhen bwll', 'di-waed yw'r gwythiennau du', 'cleber y camau', 'croen gwyrdd ar y bryniau ffug'. Mae'r cwm yn llwglyd am 'elw'r dydd', ac yn hiraethu am 'aur bywoliaeth'. Ceir darlun penigamp o 'fawredd yr olwynion fry' bellach yn segur ac 'Yn ddelw tawel ar draciau'r cof'. Cynildeb y dweud sy'n cynnal safon y gerdd. Mae pob gair wedi'i ddewis yn ofalus. Daw'r gerdd i uchafbwynt yn nelweddu cyfoethog y pennill olaf; mae 'cnawd bywyd cenedlaethau' bellach 'yn bridd llonydd dan fygydau glân', sydd nid yn unig yn synio bod cyrff llawer o weithwyr o dan y pridd, ond hefyd mai'r un yw gwead y bobl sy'n byw yn y cwm heddiw, ond eu bod â 'mygydau glân'. Er y newid cosmetig, felly, ni ellir dileu hanes diwydiannol y cwm o eneidiau'r trigolion. Llais bardd yn wir. Pleser oedd darllen a beirniadu'r gerdd hon.

### Tawelwch

Yma mae'r esgyrn haearn
Yn gysgod o lun gorffennol,
Yn graith o gofeb ar y tir,
Yn garreg fedd i atgof y cwm.

Ynghau mae gwefusau'r siafft,
A'r llwnc hir i stumog 'rhen bwll
Yn sych. Ni chana'r corn bellach
Fel sgrech o newyn am elw'r dydd.

Di-waed yw'r gwythiennau du,
Di-gur y galon – calonau
A gurasant fel un ynghyd
Yn ei grombil am aur bywoliaeth.

Mud yw cleber y camau
A gwag y corff o'i enaid gynt.
Mae mawredd yr olwynion fry
Yn ddelw tawel ar draciau'r cof.

Yma, yn llwch ei ddyddiau,
Mae croen gwyrdd ar y bryniau ffug,
A chnawd bywyd cenedlaethau
Yn bridd llonydd dan fygydau glân.

Ruth Davies
Ysgol Gyfun Plasmawr

## Cystadleuaeth y Limrig
## Testun: Mae 'na sôn am hen ŵr o Gilfynydd

Derbyniais 89 limrig a chefais hwyl garw yn darllen am y gwŷr (a'r gwragedd) diddorol a doniol o Gilfynydd!

Gŵr sy'n berchen ar hofrennydd yw testun Gareth Bunn, Rhydfelen:

Hofrennydd bach glas,
Fe neidiodd e mas
A syrthio i fôr yr Iwerydd!

Rhaid bod hofrenyddion yn gyffredin iawn yn ardal Rhydfelen, oherwydd sonia Rhys Jones, Rhydfelen, am ŵr a symudodd i Gasnewydd:

Aeth mas i sgio
Daeth nôl yn crio,
Achos sgiodd i mewn i hofrennydd!

Dyma gynnig Deiniol Fisher, Rhydfelen:

Roedd 'na sôn am hen ŵr o Gilfynydd
Sy'n enwog am fod yn hen gybydd,
Wrth siopa yn Tesco
Fe grwydrodd ei ddwylo
Gan heddwas y cafodd ei rybudd!

Rwy'n credu ei fod yn lwcus i gael rhybudd yn unig! Roeddwn yn pitïo'r dyn tywydd yn limrig Claire Newbery, Rhydfelen, sy'n drydydd yn y gystadleuaeth:

Mae 'na sôn am hen wr o Gilfynydd
A gafodd swydd fel dyn tywydd
Rhagwelodd y glaw
Ond cafodd e fraw . . .
. . . dinistriwyd y wlad â llifogydd!

Yn gydradd drydydd â Claire y mae Sian Davies, Rhydfelen, â'i limrig am ddyn anffodus iawn:

Mae 'na sôn am hen ŵr o Gilfynydd
Fe symudodd ef o Sain Cennydd
Bwrodd ei ben
Ar ddarn mawr o bren
Nawr mae ganddo lwmpyn maint mynydd!

Limrigau Laura Waring, Rhydfelen, a Ceris Davies, Rhydfelen, sy'n gydradd ail. Dyn anffodus arall yw testun Laura:

Mae 'na sôn am hen ŵr o Gilfynydd,
A yrrodd hen gar dros y mynydd,
Fe dorrodd i lawr,
Ar ôl dim ond awr,
Mae yna o hyd heb ryw gynnydd!

Dyn â'i fryd ar wraig sydd yn limrig ddoniol Ceris:

Mae 'na sôn am hen ŵr o Gilfynydd
Fu'n chwilio am fenyw o'r newydd
A'i wraig yn rhy hen
A ddim yn rhy glên
Am bishyn 'Baywatch' roedd ei awydd!

Aron Thomas, Rhydfelen, sy'n gyntaf, a hynny am limrigau o safon – tri ohonynt yn ddoniol ac yn grafog iawn.



**Aron Thomas**

### Limrigau

Mae 'na sôn am hen wr o Gilfynydd,
Bu'n caru ar ddiwrnod o hafddydd,
Fe ddiffoddwyd pob serch
Pan feichiogodd y ferch,
Dihangodd dros fôr yr Iwerydd.

Mae 'na sôn am hen wr o Gilfynydd
A'i fryd oedd ar forio'r Iwerydd,
Gyda stumog mor wan
Gallwch ddeall paham
Roedd e'n chwydu beth bynnag y tywydd!

Mae 'na sôn am hen wr o Gilfynydd
A'i fryd oedd ar forio'r Iwerydd,
Fe chwythodd ei gorn,
Pan rowndiodd yr 'Horn'
A nawr mae ar war Ioan Gruffudd.

Aron Thomas
Ysgol Gyfun Rhydfelen

**Limrig: 'Mae 'na sôn am ŵr o Gilfynydd'**

1 Aron Thomas, Rhydfelen
2 Ceris Davies, Rhydfelen; Laura Waring, Rhydfelen
3 Sian Davies, Rhydfelen; Claire Newbery, Rhydfelen

Agos i'r brig:
Lisa Jones, Deiniol Fisher, Rhys Jones, Richard Tennant, Gareth Bunn, Rhydfelen



**Ruth Davies**

**Blwyddyn 12 a 13: 'Tawelwch'**

1 Ruth Davies, Plasmawr
2 Alex Clatworthy, Plasmawr; Ruth Davies, Plasmawr
3 Catrin Middleton, Plasmawr

Agos i'r brig
Mari Griffiths, Glantaf (dwy ymgais); Emily Rebecca John, Rhydfelen

**MENTER IAITH**

**ar waith yn Rhondda Cynon Taf**

**01443 226386**

www.menteriaith.org



**Alun Cox, Cadeirydd y Cwlwm Busnes gyda Dafydd Williams o Awdurdod Datblygu Cymru**

***50% MWY YN SIARAD CYMRAEG!***

Dyna ni, pwy fasai wedi meddwl y byddai cyfrifiad 2001 yn darparu ystadegau mor syfrdanol i Rhondda Cynon Taf? Mae'r ffigyrau sydd wedi dod i law hyd yma yn awgrymu bod cynnydd o 50% yn niferoedd siaradwyr Cymraeg Rhondda Cynon Taf i fyny o 9% at 13.5% sy'n gorfod bod yn achos dathlu a llawenydd mawr i bawb sy'n cefnogi'r Gymraeg. Mae sawl un wedi fy llongyfarch i yn bersonol fel pe bawn i wedi creu'r siaradwyr yma! Yn amlwg y mae'r diolch go iawn i'r bobl sy'n dewis siarad Cymraeg, y rhieni sy'n dewis addysg Gymraeg yn eu miloedd a'r athrawon sy'n dysgu'r plant ac yr oedolion hefyd sy'n dewis gweithio yn galed i ddysgu'r iaith a mynnu eu defnyddio hi yn y gymuned gan godi cywylidd ar nifer o siaradwyr iaith gyntaf sy'n rhy barod i droi i'r Saesneg a pheidio a chreu trafferth wrth hawlio ffurflenni Cymraeg. Mae Deddf Iaith 1993 hefyd yn cael effaith erbyn hyn, yn araf efallai, yn annigonol mae'n siwr, yn nannedd gwrthwynebiad sawl un sydd i fod i'n gwasanaethau ni ond mae'n cael effaith ac y mae'n dod yn haws i dderbyn gwybodaeth a gwasanaethau yn y Gymraeg. Llongyfarchiadau i bawb sy'n cyfrannu at ddyfodol y Gymraeg trwy ddarllen y papur bro yma, trafodwch, pasiwch ymlaen at siaradwr Cymraeg arall, trefnwch ddathliad Dydd Gŵyl Dewi teilwng a chofiadwy. Dathlwch! Dathlwch! Dydyn ni ddim yn cael cyfleon fel hyn yn aml iawn ac fe all fod yn drobwynt hanesyddol – gawn ni weld ar ôl cyfrifiad 2011.

***50% MWY O BLANT AR Y CYNLLUNIAU CHWARAE!***

Mae 50% yn ganran cyson iawn ar hyn o bryd ond mae'm wir i ddweud bod 50% mwy o blant wedi mynychu cynlluniau chwarae gwyliau'r gwanwyn nac oedd yn ystod gwyliau'r Hydref gyda chynlluniau Abercynon, Bronllwyn a Llynyforwyn yn tyfu yn sylweddol a thwf hefyd yn y cynlluniau eraill. Bu gennym hyd at 150 o blant y diwrnod yn mwynhau'r gweithgareddau gwych a drefnwyd ar eu cyfer gan Trystan Griffiths a Helen Davies ac arweinwyr y cynlluniau. Roedd Trysor wedi perfformio dwywaith, teganau dwr i'w defnyddio yn pwll nofio Rhydfelen, ffram ddringo newydd yn Abercynon, Castell Neidio yn Llanhari, ymweliadau gan Sam Tan i'r cynlluniau a'r Frigad Dan yn galw yn Abercynon, Gŵyl Chwyldro Chwarae Chwefror yng Nghanolfan Hamdden y Ddraenen Wen a pherfformiadau cyson gan y Criw Coch ymhob man. Da iawn wir!

**CLYBIAU CARCO NEWYDD YN AGOR**

Mae dau Glwb Carco newydd agor eleni yn y Rhondda sef Clwb Carco Ynyswen a Chlwb Carco Penyrenglyn wedi eu staffio gan staff lleol Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae hyn yn bartneriaeth sy'n gweithio er lles y Fenter a'r Mudiad rhwng oriau'r clybiau Carco ac oriau y cylchoedd meithrin y mae pobl yn gallu datblygu sustem gwaith sydd gyfystyr â thri chwarter swydd llawn amser sy'n siwtio llawer o bobl. O safbwynt y Mudiad a'r Fenter mae'n help i gael pobl sydd wedi rhanu profiad hyfforddiant, cofrestru gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a sieciau Heddlu ac wrth gwrs maen nhw'n adnabod y plant ac yn dda wrth eu gwaith.

**19 CLWB CARCO YN DARPARU GWASANAETH AT 380 O BLANT Y DIWRNOD**

Mae'n werth ystyried weithiau beth ydy maint y dasg sydd o flaen y Fenter wrth drefnu'r gwasanaethau gofal plant. Pe bai pob clwb yn llawn byddai gennym 380 o blant y diwrnod ac y mae llawer o'n clybiau nawr yn dechrau dod yn llawn yn rheolaidd. Mae'n bwysig trefnu llefydd ymlaen llaw er mwyn gwneud yn siwr bod lle i'ch plentyn – mae rhai yn cael eu siomi. Mae'r gwasanaeth cyfystyr ag ysgol gynradd go fawr mewn gwirionedd ond yn cael ei ddarparu ar gost ceiniogau yn hytrach na miloedd o bunnoedd.

**DIBYNNU AR GEFNOGAETH YR YSGOLION**

Mae ambell i glwb sydd ddim mor boblogaidd am wahanol resymau a baswn yn galw ar athrawon yr holl ysgolion i ddangos diddordeb yng nghlwb eu hysgol nhw gan alw yn y clwb, siarad â'r staff sy'n rhedeg y clwb a gwneud beth bynnag dych chi'n gallu i gynorthwyo'r clybiau gwanach. Bydd holiaduron yn mynd at rheini holl blant yr ysgolion yn fuan iawn a threfnir cyfarfodydd blynyddol y clybiau er mwyn trafod y gwasanaethau. Y mae croeso i bawb ddod a byddem yn falch iawn o unrhyw gynigion o gymorth. Mae manylion llawn ein gwasanaethau gofal plant ar gael gan Helen Davies a Trystan Griffiths ar 01443 226386

**GWASANAETHAU CIC YN DATBLYGU**

CIC ydy partneriaeth ieuenctid y Fenter, Yr Urdd a Chyngor Rhondda Cynon Taf sy'n cyflogi Amy Davies, Vicky Pugh a Rhian James o Ganolfan Yr Urdd yn Aberdar. Y maent wedi agor sawl Clwb Cymraeg newydd mewn ysgolion uwchradd Saesneg, trefnu teithiau a nosweithiau Bowlio Deg, Clybiau Radio, dawnsio, drama ac XL, cyflwyniadau parthed cynllun iaith gwaith a llwythi o weithgareddau eraill. Mae manylion llawn ar gael ganddyn nhw ar 01685 882299.

**GRANTIAU DYSGWYR HSBC**

Bydd nifer o ddysgwry yn derbyn eu grantiau ar ddehcrau mis Mawrth – mae Dydd Gŵyl Dewi wastad yn achos dysgu Cymraeg – ac rydym yn

gobeithio gwneud cais i'r banc noddi'r cynllun hwn unwaith eto yn ystod y flwyddyn 2003/04. Dylem nodi bod y banc yn falch iawn o'u gwasanethau Cymraeg ac yn erfyn arnom i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg sydd ganddynt. Cysylltwch a'ch cangen leol am fwy o wybodaeth.

**TEITHIAU CERDDED I DDYSGWYR, SIARADWYR A'U FFRINDIAU**

Mae teithiau cerdded wedi trefnu am 1.30pm ar 5/3/03 ym Mharc Gwledig Cwm Dar gyda Gwyn Morgan yn arwain, ac am 2pm ar 7/06/03 ym Marc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – Penderyn – gyda John Davies yn arwain. Mae manylion llawn ar gael gan Rhian James ar 01685 877183. Mae dysgwyr Llantrisant a Chymdeithas Gymraeg Llantrisant yn cyfarfod am 7.30pm ar nos Lun 10fed Mawrth yn Nhafarn Yr Arth. Mae CYD hefyd yn trefnu gweithgareddau dysgwyr – Cwis yn Nhafarn Y Pwdin nos Sadwrn 8/03/03 a nifer o bethau eraill – manylion gan Adrian Price ym Mhrifysgol Morgannwg.

**NOSON I'R TEULU**

Mewn cydweithrediad â Danny Grehan Twf, Cyngor Rhondda Cynon Taf a nifer o asiantaethu eraill rydym yn trefnu Noson I'r Teulu rhwng 6pm a 9pm ar nos Wener 28ain Mawrth yng Nghanolfan Hamdden Pendyrus – Tylorstown – Rhondda Fach. Dewch yn llu i fwynhau cyfleusterau'r ganolfan hamdden, gweld perfformiadau grwpiau lleol, mwynhau gweithdai drymio, castell nediio ac ati. Addas at deuluoedd o bob oed a phob math!

**BUSNES CYMRAEG AR I FYNY**

Cynhaliwyd noson lwyddiannus iawn o dan cynllun Potentia yn y Rhondda yn ddiweddar ac y mae un arall wedi'i drefnu am nos Lun 17/03/03 i ystyried cyfathrebu. Mae Rhys Mwyn yn siarad a Chwlwm Busnes y Cymoedd ar nos Fawrth 25ain Mawrth – 6pm ymlaen yng Nghanolfan Menter y Cymoedd , Abercynon ac y mae Dean Powell Golygydd y Ponty Observer yn siarad â'r Cwlwm ar nos Fawrth 29ain Ebrill. Mae llawer o bobl yn edrych ymlaen at hyn yn barod. Manylion llawn ar gael gan Julie Williams ar 01685 877183.

**GWASANAETH CYFIEITHU CYMUNEDOL**

Newydd glywed Gwynallt Bowen a Nushin o Aberdar yn trafod Cwrs Cyfieithu'r Fenter ar Radio Cymru. Mae'r cwrs rhad ac am ddim i grwpiau cymunedol bach lleol – at bwrpas dechrau cyfieithu pethau bach – ac wedyn am bris rhesymol i bawb. Mae modd i gyfieithwyr a grwpiau cymunedol hefyd llogi offer cyfieithu gan Fentrau Iaith Morgannwg Gwent – felly os ydych chi yng Nghaerdydd, Caerffili, Penybont neu Rhondda Cynon Taf y mae modd i chi fanteisio ar y gwasanaeth gwych yma. Manylion llawn gan Gwynallt Bowen ar 01685 877183

**SWYDDI GWAG MENTER IAITH**

Dyma'ch cyfle chi i ymuno â thim y Fenter! Rydym yn chwilio am bobl i lenwi dwy swydd llawn amser ar hyn o bryd sef – ***SWYDDOG CYMRYD RHAN CYMUNEDAU YN GYNTAF*** - £22,000 y flwyddyn yn gweithio o'n swyddfa yn Nhreorci a ariannwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol trwy Gyngor Rhondda Cynon Taf a ***SWYDDOG CYLLID*** - £16,000 y flwyddyn yn gweithio o unrhyw un o'n swyddfeydd yn Llantrisant, Treorci neu Aberdar a ariannwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Dylai fod posteri yn hysbysebu'r swyddi hyn gyda manylion llawn a dyddiadau cau ac ati i'w gweld yn fuan iawn. Os nad ydych yn gweld dim byd ffoniwch Steffan Webb ar 07976 167086 i holi.

**ANGEN TRYSORYDD NEWYDD**

Rydym yn chwilio am rhywun newydd i gymryd ymlaen y gwaith yma gyda chefnogaeth y Swyddog Cyllid newydd. Staff gweinyddol y Fenter fydd yn gyfrifol am holl waith cyllid ac ariannol bob dydd y Fenter o 1af Ebrill ymlaen felly Trysorydd anrhydeddus sydd eisiau i ddeall y sustemau, edrych ar ffigryau, trafod ffyrdd o gofnodi a rheoli arian a chyflwyno cyfrifon yn ogystal a rhoi cyngor ac arweiniad cyffredinol sydd eisiau yn hytrach na rhywun i wneud y gwaith ymarferol bob dydd. Os oes gyda chi ddiddordeb rhowch alwad i Steffan Webb ar 07976 167086 neu siaradwch ac un o swyddogion neu bwyllgorwyr y Fenter.

***STEFFAN WEBB***
**PRIFWEITHREDWR**
**MENTER IAITH**

# Ysgol Heol y Celyn

Mae nifer o ddosbarthiadau wedi bod ar dripiau yn ystod yr hanner tymor yma. Bu blynyddoedd 3 a 4 adran Gymraeg a'r adran Saesneg ar drip i Gaerllion. Yn anffodus nid oeddem yn gallu mynd y tymor diwethaf pan roedd y plant yn astudio'r thema `Y Rhufeiniaid' felly aethom yn y bythefnos gyntaf o'r tymor. Roedd y trip yn un llwyddiannus iawn gyda'r holl blant yn mwynhau ymweld â'r baddonau, y baracs, yr amffitheatr a gwisgo lan i chwarae rôl. Bu yr adran Iau Cymraeg hefyd am brynhawn yn y `Pop Factory' yn Porth fel rhan o gynulleidfa yn y rhaglen deledu `Popty'. Yn amlwg roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn yn gweiddi a dawnsio i'r grwpiau pop Cymraeg a gweld eu hunain ar y teledu.

Roedd y babanod Cymraeg wedi bod yn ffilmio hefyd. Daeth Planed Plant i'r ysgol ac roedd y plant wedi ymweld â hwy yng Nghanolfan Hamdden y Ddraenen Wen. Roedd eu hwynebau yn bictiwr wrth iddynt fwynhau'r sioe: Bu rhai o'r plant o'r adran Saesneg yn y babanod ar drip hefyd. Fe aethant i Tesco a `Playland' i weld sut mae gwneud bara.

Daeth nifer o bobl i'r ysgol i addysgu'r plant hefyd. Daeth `Mathsworkshop' i'r ysgol i weithio gyda'r plant ym mlwyddyn 3 a 4, ble roeddent yn datrys problemau gan ddefnyddio gweithiau mathemateg. Dysgodd y plant lawer am sut i ddefnyddio gweithredau mathemateg i ddatrys problemau. Daeth `Jugglestruck' sef cwmni sydd yn sôn am ddiogelwch ffordd i'r ysgol i berfformio sioe i'r plant. Roedd y sioe yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol ar sut i gadw yn saff ar y strydoedd a bu i'r holl blant fwynhau yn arw.

Bu dosbarth Mrs Edmunds sef blynyddoedd 3 a 4 yr adran Saesneg yn brysur yn ymarfer eu gwasanaeth dosbarth a gafodd ei berfformio ar ddiwrnod Sant Ffolant. Roedd y gwasanaeth yn un diddorol iawn am hanes Sant Ffolant a bu i i'r holl blant berfformio yn ardderchog. Da iawn chi.

Mae tîm pêl-rwyd yr ysgol wedi bod yn brysur yn chwarae nifer o gêmau hefyd rhai yn llwyddiannus ac eraill ddim cweit mor llwyddiannus. Bu i'r ysgol golli yn erbyn Ysgol Evan James o 10-7 a cholli oedd ei hanes yn erbyn Ysgol Maes-y-Coed hefyd o 7-2. Ond ennill oedd ei hanes yn erbyn Ysgol Trehopcyn o 10-7 a hefyd yn erbyn Ysgol Coedpenmaen o 10-0. Daeth yr ysgol yn drydydd yng nghystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd hefyd. Da iawn chi bawb sydd wedi gweithio yn galed yn ymarfer yn wythnosol ar gyfer y tîm pêl-rwyd.

# E-GYFATHREBU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Mae ffigurau diweddaraf a ryddhawyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dangos bod dros 25,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw yng Nghaerdydd. Mae rhoi gwybodaeth i gynifer o bobl am ddigwyddiadau penodol, cyngherddau, dramâu, a gweithgareddau plant yn gallu profi'n anodd.

Mewn ymateb i'r her yma, bydd Menter Caerdydd yn lansio prosiect uchelgeisiol a chyffrous ar Ddydd Llun 31 Mawrth 2003 am 11.00 o'r gloch yn Swyddfa Menter Caerdydd i sefydlu bas-data gynhwysfawr o gyfeiriadau e-bost i gynorthwyo i hyrwyddo gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg. Bydd y gohebydd a'r cyflwynydd adnabyddus Huw Llywelyn Davies a'r newyddiadurwraig boblogaidd sy'n dysgu'r iaith Gymraeg Lucy Cohen yn cofrestru eu cyfeiriadau e-bost nhw ar y diwrnod yma ac yn helpu gyda'r lawnsiad. Mae Menter Caerdydd yn ddiolchgar iawn iddynt am eu hamser a'u cefnogaeth.

Mae Menter Caerdydd yn benderfynol o sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn chwarae rhan cyfannol ym mhob agwedd o fywyd Caerdydd: y tu fewn i'r gweithle, yn ystod oriau ysgol a thu allan i'r oriau yma. Mae'r Fenter yn weithredol iawn yn trefnu cynlluniau chwarae a chlybiau cyfrwng Cymraeg ar ôl ysgol ar gyfer plant ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn busnes ac mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden ar gyfer oedolion sy'n dysgu'r Gymraeg.

Dywed Siân Lewis, Swyddog Datblygu Menter Caerdydd, "Mae'r ymateb wedi bod yn syfrdanol hyd yn hyn, ac mae'r Fenter yn annog unrhywun sydd â chyfeiriad e-bost ac â diddordeb mewn gweithgareddau o bob math trwy gyfrwng y Gymraeg i'w ddanfon atom".

I'r sawl sy heb gofrestru eto ar gyfer y gwasanaeth yma sy'n rhad ac am ddim, anfonwch eich cyfeiriad e-bost i SianLewis@mentercaerdydd.org, os gwelwch yn dda.



**Ceri Tudno yn casglu cyfeiriadau e-bost ar gyfer prosiect e-digwydd Menter Caerdydd**

# YSGOL GARTH OLWG

**YMWELIAD ADDYSGOL**
Bu cryn gyffro ymysg grwp o blant yr ysgol ar ddechrau Chwefror, pan fu plant Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ar ymweliad â Swyddfa Dosbarthu y Post Brenhinol - ar stâd y Maritime ym Mhontypridd. Cawsom groeso cynnes gan Ian a'r gweithlu. Roedd y plant a'r oedolion wrth eu boddau yn dysgu sut yn union roedd post yr ardal yn cael ei ddosbarthu.

**YMWELWYR I'R YSGOL**
Hefyd, ar ddechrau Chwefror bu'r grwp `Tiny Giants' yn yr ysgol a'u cyflwyniad dramatig i blant Blynyddoedd 3 a 4, am bwysigrwydd bod yn ofalus wrth groesi'r ffordd fawr. Roedd y cyflwyniad yma yn rhan o'r cydweithio â Swyddog Cyswllt yr Heddlu.

**PÊL-DROED 5 BOB OCHR MERCHED**
Dydd Mercher 5/2/03, tîm pêl-droed Garth Olwg yn cymeryd rhan yng nghystadleuaeth pump bob ochr yr Urdd. Cafodd cystadleuaeth y sir ei chynnal yng nghanolfan hamdden Tonyrefail. Fe gafodd y tîm cryn Iwyddiant gan orffen yn drydydd. Uchafbwynt y bencampwriaeth oedd eu gem olaf yn erbyn Llwyncrwn. Gem llawn pêl-droed da, fe lwyddodd y merched i ennill 6-4 gyda Sally Jones yn sgorio pump o'r chwe gôl. Ychwanegodd Marisa Jones y chweched i sicrhau buddugoliaeth. Da iawn ferched.

**DISCO'R TEULU**
Noson liwgar iawn oedd Noson `Disgo'r Teulu' wedi ei threfnu gan bwyllgor y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, ar y thema "Lliwiau'r Enfys". Bu'r plant dan 7 oed yn dawnsio 0 6.30 - 7.30 o'r gloch a'r plant dros 7 oed yn dawnsio 0 7.45 - 8.45 o'r gloch.

**CWIS LLYFRAU**
Dymunir yn dda i'r ddau dîm Cwis Llyfrau - dan 12 a dan 10 oed - fydd yn cynrychioli Garth Olwg ym Mhenybont ar Chwefror 13eg.

**DATHLU GŴYL DEWI.**
CHWEFROR 28ain - Eisteddfod Ysgol - Beirniad eleni fydd Mr D Carey Williams (Cerdd) a Mrs Loreen Williams (Llafar).
MAWRTH 7ed - Pnawn Gweithgareddau Llys, pan fydd pob plentyn yn cael cyfle i ennill pwyntiau llys - prun ai Illtyd, Maelwg, Gwynno neu Dyfodwg.
**MAWRTH 6 - Diwrnod y Llyfr**
Edrychir ymlaen at ymweliad gan Jane Davidson - Gweinidog Addysg y Cynulliad, yn ogystal a Menna Elfyn, Bardd y Plant 2002-2003, a Radio Cymru, i'n cynorthwyo i ddathlu `Dydd y Llyfr 2003'.

# Y Gymraeg i Deuluoedd

Mae **Twf,** ar y cyd gyda **S4C** yn trefnu taith i blant oed meithrin o gwmpas canolfannau ar hyd a lled Cymru. Bydd criw Planed Plant Bach S4C yn perfformio am hanner awr gyda **"Sioe Ribidires",** a bydd hefyd sesiwn stori a chanu yng ngofal Cylch Meithrin lleol.

Mae'r daith yn dechrau yn y De-ddwyrain - ardal newydd i brosiect Twf. Ar ddiwrnod cyntaf y daith bydd y Sioe yn ymweld â Chaerdydd a Chaerffili, ac ar ail diwrnod y daith bydd y Sioe yn y Rhondda. Bydd y Sioe wedyn yn parhau ar ei thaith o gwmpas y wlad.

Mae croeso wedi ei estyn i bob ysgol, cylch meithrin, a chylch chwarae yn yr ardaloedd uchod.

**Canolfan Hamdden Caerffili**
**Dydd Llun 3 Mawrth 1-3pm**

**Canolfan Hamdden**
**Rhondda Fach**
**Dydd Mawrth 4 Mawrth**
**10am - 12pm**

## Beth yw Twf?

Cynllun yw Twf sy'n rhannu gwybodaeth â rhieni a darpar rieni am fanteision magu plant yn ddwyieithog. Caiff ei ariannu gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Pwy yw'r grŵp targed? Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n arbennig ar deuluoedd cymysg eu hiaith lle mae un o'r rhieni yn siarad Cymraeg a'r llall ddim. Mae ystadegau'n dangos nad yw nifer o'r teuluoedd hynny yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Ar sail Cyfrifiad 1991, er enghraifft, dywedir fod gan 22.8% o deuluoedd y potensial i drosglwyddo'r Gymraeg, am fod o leiaf un rhiant yn medru'r iaith. Ond dim ond 16.5% o'r teuluoedd hynny sy'n defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant. Felly, mewn un o bob pedwar cartref lle mae o leiaf un rhiant yn medru'r Gymraeg, nid yw'r iaith yn cael ei throsglwyddo.

Mae'r prosiect yn rhannu gwybodaeth â theuluoedd o'r fath am fanteision dwyieithrwydd; mae hefyd yn rhoi gwybodaeth i deuluoedd yn gyffredinol, yn deuluoedd Saesneg a Chymraeg eu hiaith.

Beth yw'r negeseuon craidd? Mae'r prosiect yn defnyddio gwybodaeth ymchwil i sôn am fanteision dwyieithrwydd i blant, er enghraifft:

**Manteision gwybyddol** - plant dwyieithog yn tueddu i feddwl yn fwy hyblyg a chreadigol am fod ganddyn nhw fwy nag un gair ar gyfer popeth.

**Manteision addysgol** - tystiolaeth ymchwil o sawl gwlad (Canada, yr UD, gwlad y Basg, Catalwnia a Chymru) yn dangos fod plant dwyieithog yn tueddu i wneud yn well yn y cwricwlwm gan berfformio ychydig yn well mewn arholiadau.

**Manteision economaidd** - mae dwy iaith yn rhoi gwell dewis ym myd gwaith; mae llawer o swyddi bellach yn gofyn am sgiliau dwyieithog.

**Manteision cymdeithasol a diwylliannol** - mae siarad dwy iaith yn agor mwy o gyfleoedd cymdeithasol ac yn rhoi allwedd i ddau ddiwylliant.

**Haws dysgu trydydd iaith** - mae gwaith ymchwil yn Ewrop yn dangos yn gynyddol fod plant dwyieithog yn tueddu i'w chael hi'n haws dysgu iaith arall.

Sut mae Twf yn gweithio? Mae gan y prosiect 9 swyddog maes rhan-amser sy'n gweithio'n agos ag ymwelwyr iechyd a bydwragedd a gydag ystod o fudiadau a mentrau sy'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar. Mae bwriad ehangu'r cynllun i weddill Cymru yn ystod 2003.

# Darllena gyda Fi

I gefnogi Diwrnod y Llyfr ar 6 Mawrth 2003, mae'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn cynnal fersiwn newydd o'i hymgyrch hysbysebu *Os helpu di fi i ddarllen* sy'n cynnwys Jonathan Davies.

Mae'r Asiantaeth wedi cysylltu â Cyngor Llyfrau Cymru sy'n trefnu dathliadau ledled Cymru i annog pobl o bob oed i ail ddarganfod pleser darllen. Bydd y fersiwn arbennig o hysbyseb Diwrnod y Llyfr ar y teledu yng Nghymru o ddydd Gwener 21 Chwefror i ddydd Iau 6 Mawrth.

Mae'r fersiwn newydd o'r hysbyseb hefyd yn gyfle i hybu'r llyfr *Darllena gyda Fi* sydd i'w gael am ddim gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ac sy'n cael ei ddefnyddio'n barod gan blant a rhieni ledled Cymru. Mae'r llyfr *Darllena gyda Fi* ar gael am ddim gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol drwy ffonio 0845 650 7777.







# Cymru Ar-lein...
# sut all e helpu'n ardal ni?

Cymru Ar-lein yw strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) Llywodraeth y Cynulliad.

**Beth yw TGCh?**
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yw unrhyw dechnoleg sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn rhoi neu dod o hyd i wybodaeth neu er mwyn cyfathrebu. Enghreifftiau amlwg yw cyfrifiaduron, y Rhyngrwyd, e-bost, ffonau, ffonau poced a hyd yn oed teledu, teledu digidol a radio. ICT yw'r term Saesneg.

**Beth yw band eang?**
Mae rhwydweithiau band eang yn ei gwneud hi'n bosibl i ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn llawer cynt. Weithiau fe'i gelwir yn band llydan a broadband yw'r term Saesneg.
Ond beth sydd gan hyn i wneud â ni?
Rhan fawr o Cymru Ar-lein yw gwneud yn siwr bod cymunedau'n elwa o ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.

**Mynd ar y Rhyngrwyd am ddim!**
Mae hyn yn golygu gwneud yn siwr bod pobl yn gallu mynd ar y Rhyngrwyd yn lleol hyd yn oed os nad oes cyfrifiadur ganddyn nhw gartref ac mae posibl mynd ar y Rhyngrwyd am ddim ym mhob llyfrgell cyhoeddus yn Nghymru. Mae rhestr o ganolfannau a llyfrgelloedd lle gall pobl ddefnyddio'r Rhyngrwyd am ddim ar wefan Cymru Ar-lein yn www.cymruarlein.cymru.aiov.uk/ictcentres neu fe allwch ffonio 029 2080 1025 a gofyn ble yw'r lle agosaf i chi. Mae staff y llyfrgelloedd wedi cael eu hyfforddi i roi unrhyw help sydd arnoch chi ei angen i chi.

**e-gymunedau**
Mae rhai ardaloedd wedi elwa'n fawr o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n barod - ac mae Penrhyndeudraeth a Dyffryn Ogwen yn enghreifftiau da. Edrychwch ar wefan Penrhyndeudraeth yn www.penrhyndeudraeth.com i weld beth sy'n bosibl! Yn dilyn llwyddiant 'Pentref Rhwydweithiol' Penrhyndeudraeth mae'r WDA yn dechrau rhaglen e-Gymunedau a fydd yn ehangu'r mynediad i fand eang i wahanol gymunedau ac yn rhoi offer TGCh ar gyfer datblygu cymunedau. Bydd porthol ar y we yn galluogi busnesau, mudiadau gwirfoddol a gweithgareddau lleol i gael eu rhoi
ar y we a bydd posibl gwella'r economi leol drwy gyfnewid sgiliau a nwyddau lleol ar y we.

**Ond alla i ddim defnyddio TGCh!!**
Does dim pwynt cael llwyth o dechnoleg os na all neb ei ddefnyddio! Er mwyn gwneud yn siwr y bydd rhywun ar gael yn lleol i helpu gyda'r dechnoleg bydd graddedigion TGCh yn cael eu rhoi mewn cymunedau lleol i wneud defnyddio canolfannau TGCh yn haws ac i ddysgu pobl leol sut mae cael y gorau allan o'r dechnoleg. Mae ELWa'n rhedeg peilot o'r cynllun E-Leoliadau yma yn Sir Benfro a byddant yn rhedeg peilotau mwy flwyddyn nesaf. Mae hwn yn gynllun gwahanol iawn oherwydd mae'n taclo'r broblem bod pobl ifanc talentog yn symud i ffwrdd drwy greu cysylltiadau positif rhwng unigolion, mudiadau gwirfoddol a busnesau bach lleol ac yn rhoi'r profiad i fyfyrwyr o ddefnyddio'u sgiliau er mwyn eu cymunedau lleol.

**Oes posib defnyddio TGCh yn Gymraeg?**
Un o amcanion Cymru Ar-lein yw i godi statws yr iaith Gymraeg mewn perthynas a TGCh, er mwyn cynnal twf cynyddol yr iaith Gymraeg a helpu i leihau eithrio digidol ar sail iaith.
Mae Bwrdd yr Iaith yn edrych ar bosibiliadau gwahanol i sicrhau bod yr amcan hwn yn cael ei wireddu. Fel camau cyntaf mae nhw wedi rhoi rhestr o adnoddau cyfrifiadurol Cymraeg ar eu gwefan yn www.bwrddyriaith.org.uk/techgwyb/rhestrmeddalwedd-c.html. Mae nhw hefyd yn gweithio i sicrhau bod gwefannau cyrff cyhoeddus yn ddwyieithog ac mae Llywodraeth Prydain wedi derbyn cyngor Bwrdd yr laith Gymraeg bod angen i wefan pob sefydliad llywodraethol sy'n gwasanaethu'r cyhoedd yng Nghymru gynnwys y Gymraeg a'r Saesneg.

**Dwi isie dweud fy nweud...**
Mae croeso i bawb i ymateb i waith Cymru Ar-lein ar y fforymau trafod yn www.cymruarlein.cymru.gov.uk/fforymau. Mae croeso hefyd ichi ofyn cwestiynnau neu roi gwybodaeth. Mae wyth fforwm trafod ar y wefan, sef
· Dinesydd a Chymuned
· Sector Preifat
· Sector Cyhoeddus
· Sgiliau TGCh
· Cyllid Ewropeaidd
· Seilwaith
· Y Gymraeg a TGCh
. Datblygu Cynaladwy a TGCh

Am fwy o wybodaeth cyffredinol edrychwch ar ein gwefan ar
**www.cymruarlein.cymru.gov.uk**


Prifysgol Cymru Aberystwyth 1872 The University of Wales

**GRADD ALLANOL**
**Prifysgol Cymru**

- A hoffech roi sglein ar eich **Cymraeg** ysgrifenedig?
- Neu wybod mwy am fawrion byd llenyddol a hanesyddol Cymru?
- Neu ddysgu'r sgiliau sylfaenol ym myd **busnes**?
- Neu feistroli'r **Ffrangeg** neu'r **Wyddeleg** neu'r **Llydaweg**?
- Neu bori ym meysydd **Ffilm a Theledu** neu **Wleidyddiaeth Ryngwladol**?

Dyma eich cyfle **CHI** i brofi addysg prifysgol drwy ddilyn cyrsiau rhan-amser dan ofal rhai o ddarlithwyr mwyaf profiadol Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

AI DYMA'R CYFLE Y BUOCH YN DYHEU AMDANO?

- Ehangu gwybodaeth
- Ennill cymhwyster
- Gwneud ffrindiau newydd
- Gwireddu breuddwyd oes

Anfonwch **NAWR** am restr gyflawn o'r cyrsiau a gynigir, a manylion pellach.

Mari Elin Jones
Cyfarwyddwr Academaidd y Radd Allanol
Adran y Gymraeg
Yr Hen Goleg, Stryd y Brenin,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AX
Ffôn: 01970-622050 E-bost: mlj@aber.ac.uk

*Hybu rhagoriaeth mewn dysgu ac ymchwil*

# FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

**FFORDD OSGOI O'R DIWEDD?**
Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi gwneud cais am arian Amcan Un i godi ffordd ar gyfer loriau sy'n mynd i mewn i a gadael Ffynnon Taf. Dyddiad cau'r cais, sy'n werth mwy na £3m, yw canol mis Mawrth.

"Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynllun os yw Swyddfa Ariannu Ewrop yn ei ganiatau," meddai llefarydd ar ran y cyngor. "Hwn yw'r trydydd cais ac ry'n ni'n gobeithio y byddwn yn lwcus y tro hwn."

"Ry'n ni'n haeddu mwy na lwc," meddai'r ymgyrchydd Thelma Berrell o Ffynnon Taf. "Ry'n ni wedi bod yn sefyll am hewl newydd ers o leia 20 mlynedd ac mae'r ffordd osgoi wedi bod yn flaenoriaeth yn rhy hir."

**ACHOS ARALL I FEDDYG**
Mae meddyg teulu gafodd ei gyhuddo o ymosod yn anweddus ar ddau glaf yn gorfod wynebu achos arall.

Yn Llys y Goron Casnewydd roedd Dr Robert Owens, 44 oed o Waelod-y-Garth, yn wynebu naw cyhuddiad o ymosod yn anweddus ac un cyhuddiad o geisio treisio.

Roedd Dr Owens, oedd yn gweithio yng Nghanolfan Iechyd y Tyllgoed, wedi gwadu'r cyhuddiadau.

Ar ddiwedd yr achos, a barodd am bythefnos, fe'i cafwyd yn ddieuog o geisio treisio claf ond methodd y rheithgor â chytuno beth oedd dedfryd y naw cyhuddiad arall. Gorchmynnodd y Barnwr John Griffith Williams y dylid cynnal achos arall a mae'n debyg y cynhelir yr ail achos yn Llys y Goron Caerdydd ym mis Mai.

**MARW LEAH'N 94 OED**
Bu farw Leah Mathews yn 94 oed. Roedd y gwasanaeth angladdol a'r traddodiant yn Eglwys y Santes Fair a Sant Iago, Ffynnon Taf, ac Amlosgfa Glyntaf ar Chwefror 4.

Doedd gan Leah ddim perthnasau. Pan oedd yn 16 oed bu farw ei thad yn 37 oed. Fis yn ddiweddarach, bu farw ei chwaer ifanca a phan oedd cancr ar ei mam gofalodd Leah yn dyner amdani am 10 mlynedd.

Roedd Leah'n wniadwraig hunan-gyflogedig yn Ysbyty'r Eglwys Newydd yng Nghaerdydd. Doedd hi ddim yn briod. Cyn iddi farw roedd yn byw yng Nghartre Tý Mawr, Trehopcyn, Pontypridd.

**DRYSAU MEITHRINFA'N CAU**
Mae'r feithrinfa oedd ym Mharc Ffynnon Taf am 11 mlynedd wedi gorfod cau am ddau reswm: deddf newydd yn golygu fod angen mwy o oedolion i ofalu am y plant ac Ysgol Gynradd Ffynnon Taf yn derbyn plant tair oed.

Pob lwc i Christine Davies ac Ann Clements yn eu swyddi newydd, cynorthwywyr yn Ysgol Ty Coch, Tonteg.

**GOLWG NEWYDD AR EGLWYS**
Daeth adnewyddu Eglwys Unedig Ffynnon Taf i ben ddiwedd Chwefror.

Gosodwyd llawr newydd yn yr eglwys a chafodd y fynedfa, y neuadd, y gegin, y stordy a'r tý bach eu hadnewyddu fel y gallai pobol fethedig ddefnyddio'r eglwys.Trefnodd yr aelodau ddigwyddiadau lleol i godi arian a derbyniwyd cyfraniadau oddi wrth fusnesau lleol. Cyfrannodd y Loteri Brydeinig, yr Eglwys Fethodistaidd, Ymddiriedolaeth Joseph Rank, a Chyngor Rhondda Cynon Taf at yr adnewyddu.

**GORFOD CADW'R HEDDWCH**
Yn Llys Ynadon Pontypridd cafodd dyn o Ffynnon Taf ei rwymo i gadw'r heddwch am chwe mis. Clywodd y llys fod Jonathan Townsend, 20 oed o Dý Rhiw, wedi tarfu ar yr heddwch.

**YR ETHOLEDIG RAI**
Mae Cyngor Bro Ffynnon Taf a Nantgarw yn chwilio am bobol frwd sy'n dymuno gwasanaethu'r cyhoedd. Os yw unrhyw un â diddordeb mewn cynrychioli Ffynnon Taf neu Dý Rhiw, dylai ffonio Doug Williams yn y swyddfa etholiadol ar 01443 484490.

Mae sedd arall yn gyfetholedig a dylai unrhyw un â diddordeb ffonio Jan Jarman ar 01443 222644.

## DIGWYDDIADAU

**CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-Garth**, 10.30am. Mawrth 2: Gwasanaeth Ysgol Sul yn y bore a'r Gweinidog (Cymun) yn y nos; Mawrth 9: Y Parchedig Dafydd Andrew Jones; Mawrth 16: Y Gweinidog; Mawrth 23: Y Gweinidog; Mawrth 30: Y Gweinidog.

**CYLCH MEITHRIN Gwaelod-y-Garth,** 9.15-12, Festri Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth. Sesiynau prynhawn ddydd Mawrth a Mercher. Mwy o fanylion: 029 20 813980.

**CYLCH TI A FI Ffynnon Taf:** brynhawn Mercher yn ystod y tymor, 1.15-2.45pm, Neuadd Pentre Ffynnon Taf. Mwy o fanylion: Jo Jones, 029 20 810600.

**CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch:** ddydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.


## *MENTER IAITH*
## SWYDDOG CYLLID

37 awr yr wythnos £16,000

Mae Menter Iaith yn edrych am Swyddog Cyllid i ymwneud â materion ariannol o ddydd i ddydd. Bydd yr unigolyn a apwyntir yn gweithio'n agos â'r Trysorydd Anrhydeddus. Bydd profiad o ddefnyddio meddalwedd cyfrifon tebyg i TAS Lyfrau a/neu SAGE yn fanteisiol. Fe fyddwch yn gyfarwydd â gweithio mewn swyddfa brysur gyda amrywiol gynlluniau a swyddogion prysur.

***I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Rhian James: ☎ 01685 877183 Dyddiad cau 17/03/2003***

# LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Siân Evans

**PEDWERYDD ŴYR**
Mae Gwilym a Beti Treharne nawr yn daid a nain i bedwar o wyrion. Llongyfarchiadau i Lynne a Mike West ar enedigaeth Steffan Dafydd yn ddiweddar – brawd bach newydd i Tomos ac Iwan. Dymuniadau gorau i'r teulu i gyd.

**DRAMA GYMRAEG Y COLEG CERDD A DRAMA AR DAITH**
Ddiwedd mis Chwefror bu Mared Swain ar daith gyda rhai o fyfyrwyr Cymraeg y drydedd flwyddyn . Fel rhan o'r cwrs yn y flwyddyn ola' rhaid iddynt fynd â drama ar daith o amgylch Cymru ac eleni comisiynwyd drama gan Gary Owen o Fryntirion; mae wedi ysgrifennu nifer o ddramau yn Saesneg ond mae Gary wedi dysgu Cymraeg a hon oedd yr un gynta iddo ymgymryd â hi yn y Gymraeg.

Aeth y myfyrwyr â'r ddrama, "Amser Cancer" i Gaerdydd, Llanelli, Aberystwyth a Bae Colwyn a chael profiad gwerth chweil wrth wneud hynny.

**ACTIO GYDA'R R.S.C.**
Tra'n son am actorion, efallai bod rhai ohonoch yn adnabod yr enw Bradley Freegard, bachgen o'r ardal a fynychodd Ysgol Gymraeg Llantrisant ac Ysgol Llanhari. Aeth i mewn i'r byd actio ac erbyn hyn mae'n gweithio gyda Chwmni Brenhinol Shakespeare yn Stratford-upon-Avon. Yn ystod y misoedd nesaf bydd yn ymddangos mewn perfformiadau o "As You Like It" a "Richard III". Pob dymuniad da iddo ef a'i deulu – mae ei fam yn dal i fyw yn lleol ac yn gweithio yn Llanharan.

**ARHOLIADAU OFFERYNNOL**
Llongyfarchiadau i Elin Haf Davies ar basio arholiad piano Gradd III ac i Ffion Williams, Hunter's Gate, ar basio ei harholiad telyn Gradd III.

**MERCHED Y GARTH**
Oes gennych chi ddiddordeb mewn canu, ac yn enwedig mewn canu cerdd dant? Efallai nad ydych erioed wedi canu mewn côr cerdd dant ond am rhoi tro arni. Mae Côr Merched y Garth yn ymarfer bob nos Iau (yn ystod tymor yr ysgol) yn Efail Isaf ac ar hyn o bryd maent yn ymarfer ar gyfer cyngherddau yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd ac yn Loughborough. Os ydych yn ferch sy'n byw yn yr ardal ag awydd ymuno â Llinos Swain (228143), yr arweinyddes, a'i chriw o ferched, rhowch ganiad iddi hi neu i Eleri (208211), Ysgrifenyddes y côr i gael y manylion i gyd. Cewch groeso mawr.

**CYLCH TI A FI – LLANTRISANT**
Ces i wybod yn ddiweddar bod y Cylch Ti a Fi lleol nawr yn cyfarfod dwy waith yr wythnos, ar fore Llun a Gwener. Mae'r criw o famau/ tadau/gwarcheidwaid a phlant yn dod at ei gilydd yn Neuadd Gymuned Penygawsi rhwng 9.30 a 11.30 y bore. Am fanylion pellach, cysylltwch â Hazel Penberthy ar 229093.

**Eglwys Meiscin**
Cynhelir Gwasanaeth Cymun Ddwyieithog yn Eglwys St.David Meiscin ar Mawrth 2ail am 6 o'r gloch.

**Ar werth**
Allwedd y Tannau o rhif 12 (1953) hyd at eleni ond efo ambell un ar goll .Manylion oddiwrth Ruth Davies ebost - ceulan @ ukgateway.net
neu 01443-224317.



**Merched y Wawr Cangen y Garth yn mwynhau noson o Fowlio Deg**

## Clwb Gwawr

Mae Merched y Wawr ynghyd â'r Fenter Iaith yn awyddus i sefydlu Clwb Gwawr yn Rhondda Cynon Taf. Ferched, a oes gennych ddiddordeb? Dyma gyfle i ymlacio a gwneud ffrindiau newydd. Clwb fydd hwn ar gyfer menywod iau a'r rhai sy'n ifanc o ran ysbryd - does dim cyfyngder oedran.

Byddai sefydlu Clwb Gwawr yn gyfle i ddod at ein gilydd i gymdeithasu yn Gymraeg trwy drefnu gwahanol weithgareddau anffurfiol fel noson allan yn y dafarn, ymweliad â'r gym, diwrnod allan ayb. Chi sydd i benderfynu, ac mae Merched y Wawr a'r Fenter yma i helpu gyda'r waith trefnu.

Os oes gennych ddiddordeb ffoniwch Sian yn Swyddfa'r Fenter Iaith yn Nhreorci 01443 440920 neu anfon e-bost : sianifan@menteriaith.org

# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

**Canolfan Gerdd Tonyrefail**
Gwellhad buan i Mr Richard Williams M.B.E. Tonyrefail ar ôl treulio wythnos yn Ysbyty Frenhinol Morganwg Ynysmardy, dydi Richard ddim wedi cael yr iechyd gorau yn ystod y misoedd diwethaf. Mae Richard Williams yn un o bobl amlycaf Tonyrefail ef sydd wedi sefydlu corau Boneddigion Y Gan, Côr Merched Tonyrefail a Chôr Plant Tonyrefail. Mae Richard wedi ei harwain ledled Ewrop a America a Chanada.

**GELLISEREN.**
Dymuniadau gorau i rai o bobl y Ton ag oedd yn gysylltiedig ag Ainon y Bedyddwyr cyn yw ddrysau gau rai blynyddoedd yn ôl erbyn hyn. Mae Mr Dilwyn Llewelyn, Mrs Cassie Entwhistle a Mrs May Edwards y tri dros ei 90 oed, maen't wedi ymgartrefi yno ers sawl blwyddyn.


# CROESAIR COL

Llongyfarchiadau i Juli Paschalis, Llandaf, Caerdydd a enillodd croesair Nadolig. Mae'r datrysiad ar safle www.tafelai.net.

**Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau.**

**Atebion i:**
**Croesair Col**
**34, Pen Bryn Hendy,**
**Yr Encil, Meisgyn,**
**Pontyclun.**
**CF72 8QX**

**erbyn 20 Mawrth 2003**



**AR DRAWS**
1. Mwy Cynnar (4)
5. Briw, nam (4)
7. Cerrig garw wedi eu chwalu (5)
8. Creadur hirglust ystyfnig (4)
9. Had yn cynnwys starts a dyfir yn y dwyrain (4)
11. Ysbwriel (5)
14. Gwneud sŵn fel llew (3)
15. Cortyn trwchus (3)
16. Hela ehediaid (5)
19. Yn glir o faw (4)
21. Fel hynny (4)
23. Ar ôl hynny (5)
24. Sŵn cloch (4)
25. Stranc, tric (4)

**I LAWR**
2. Tir yng nghanol môr (4)
3. Llodrau isaf (5)
4. Offrwm (5)
5. Aderyn dŵr urddasol (5)
6. Metelau wedi eu cymysgu (4)
8. Rhodd (5)
10. Gwaywffon (5)
12. Oes (3)
13. Awyr (3)
16. Anffawd (5)
17. Offeryn i droi'r tir (5)
18. Llostlydan (5)
20. Blodyn (4)
22. Sŵn a wneir â'r genau (4)


Ydy **Alcohol** yn costio mwy nag arian i ti?

Paid digalonni! Mae 'na ateb!

AA

**Alcoholigion Anhysbys**

Ffonia **0845 76975555** a gofyn am


# PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

**Bon Voyage.**
Pob hwyl i Eiry Miles, merch Gareth a Gina, Parc Graigwen sy wedi mynd i Batagonia i weithio am dri mis. Bydd Eiry yn dysgu yno dros gyfnod mamolaeth Catrin Morris sy'n disgwyl ei hail blentyn. Caiff Eiry gyfle i ddysgu plant meithrin yn ogystal â dysgu Cymraeg i oedolion yn ystod ei hamser yn y Gaiman. Pob lwc!

**Pen Blwydd Hapus!!**
Mae dau o drigolion Graigwen yn dathlu penblwyddi arbennig eleni. Cafodd Gareth Blainey , Lanwood Road ei ben blwydd mis diwethaf a bydd Aled Thomas, Lan Close yn dathlu diwedd mis yma. 21 eto bois? Chi'n edrych yn dda!!

**Babi Newydd**
Llongyfarchiadau i Karan ac Andy, Maesycoed ar enedigaeth mab bach,Luke. Pob dymuniad da oddi wrth bawb yng Nghlwb y Bont.


## Menter Iaith
## CWLWM BUSNES Y CYMOEDD

**Yng Nghanolfan Menter y Cymoedd, Parc Navigation, Abercynon, Aberdâr 6.30 – 9.00**

**NOS FAWRTH MAWRTH 25**
Rhys Mwyn, Sain
'Cŵl Cymru? Dyfodol roc a phop Cymraeg'

**NOS FAWRTH Ebrill 25**
Dean Powell
Golygydd y Pontypridd Observer

## CYRSIAU HYFFORDDIANT Y CWLWM BUSNES

Mewn cydweithrediad gyda **'POTENTIA'**
Ym Mharc Treftadaeth y Rhondda 6.30 – 9.30
**NOS LUN MAWRTH 17**
**Deffro Ysbryd Mentrus**


Am fanylion pellach cysylltwch â: Julie Willams ☎ 01685 877183
✉ juliewilliams@menteriaith.org

# Amser ar eich dwylo?

**Hoffech chi weld Mudiad Ysgolion Meithrin yn ffynnu yn Rhondda Cynon Taf?**
**Hoffech chi fod yn rhan o'r tîm sy'n gweithio i sicrhau hynny?**

***Os ateboch chi'n gadarnhaol i'r uchod, yna rydyn ni'n awyddus i glywed oddi wrthoch chi. Gallech chi fod yn gweithio gyda'r plant yn y Cylchoedd Meithrin, neu'n gweithio ar un o'r nifer o bwyllgorau. Gallwn ni gynnig hyfforddiant i chi mewn unrhyw faes yr hoffech chi weithio ynddo. Rydym yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.***

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN



***Os hoffech ragor o wybodaeth ar sut y gellwch chi weithio gyda Mudiad Ysgolion Meithrin yn Rhondda Cynon Taf***

***yna ffoniwch***
***Eleri Griffiths ar 01443 491927***
***neu***
***Danny Grehan ar 01443 671577.***

